BP11

Opinion Research Services

*Excellent research for the public, voluntary and private sectors*

# Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Bro Morgannwg

Adroddiad Terfynol Drafft

Mehefin 2022

Opinion Research Services | The Strand • Abertawe • SA1 1AF | 01792 535300 | www.ors.org.uk | info@ors.org.uk

Opinion Research Services, The Strand, Abertawe, SA1 1AF
Steve Jarman, Michael Bayliss, Elliot Muldoon, Gill Craddock, a Lee Craddock
Ymholiadau: 01792 535300 – info@ors.org.uk – www.ors.org.uk

© Hawlfraint Mehefin 2022

Mae'n cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus sydd wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0

Gall gynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2022)

# Cynnwys

**1. Crynodeb Gweithredol ........ 6**
Cyflwyniad a Methodoleg ........ 6
Anghenion Lleiniau – Sipsiwn a Theithwyr ........ 6
Anghenion Lleiniau – Siewmyn Teithiol ........ 7
Argymhellion Tramwy ........ 7
**2. Cefndir a Chyd-destun Polisi ........ 8**
Yr Astudiaeth ........ 8
Deddfwriaeth a Chanllawiau ........ 8
Cylchlythyr 005/2018 Llywodraeth Cymru ........ 8
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ........ 9
Deddf Tai (Cymru) 2014 ........ 9
Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ........ 11
Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddylunio a Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ........ 11
Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg (2011–2026), Mabwysiadwyd Mehefin 2017 ........ 11
Diffiniad o Dermau Allweddol ........ 13
**3. Dadansoddiad o Ddata Presennol ........ 14**
Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Presennol a Blaenorol ........ 14
Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Bro Morgannwg 2016–2026 ........ 14
Data Poblogaeth – Cyfrifiad 2011 ........ 14
Data Cyfrif Carafannau ........ 15
Darpariaeth Llety Bresennol ........ 16
Safleoedd ac Iardiau ym Mro Morgannwg ........ 17
**4. Methodoleg ........ 18**
Grŵp Llywio Prosiect Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ........ 18
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ........ 19
Nodi a Dadansoddi Data Presennol ........ 20
Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Asesiad o Anghenion Llety ........ 20
Cynnal Arolygon yr Asesiad o Anghenion Llety ........ 21
Cyfweliadau Aelwydydd ........ 21
Cyfweliadau Tai Brics a Morter ........ 21
Cyfrifo Anghenion Llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol ........ 21
Cyflenwad Preswyl Presennol ........ 22
Galw Preswyl Presennol ........ 22

Galw yn y Dyfodol....22
Canlyniadau Terfynol....23
Darpariaeth Tramwy....23
Cydymffurfio â'r Rhestr Wirio Ymgysylltu....23
**5. Canfyddiadau'r Arolwg....25**
Cefndir....25
Hayes Road, Sili....26
Cofnod Cyfweliadau....26
Trosolwg a Demograffeg y Preswylwyr....27
**6. Asesu Anghenion Llety....28**
Cyflenwad Preswyl Presennol....28
Galw Preswyl Presennol....28
Galw yn y Dyfodol....29
Cyflenwad Preswyl Awdurdodedig Presennol....29
Galw Preswyl Presennol....30
Safleoedd Diawdurdod Cyfredol....30
Aelwydydd Cudd a Lleiniau Gorlawn....30
Tai Confensiynol....30
Aelwydydd Newydd i Gyrraedd....31
Darpariaeth Lleiniau Ychwanegol: Angen yn y Dyfodol....31
Poblogaeth a Thwf Aelwydydd....31
Yr Angen Cyffredinol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg....32
Anghenion Siewmyn Teithiol ym Mro Morgannwg....33
Darpariaeth Safleoedd Tramwy / Aros mewn Argyfwng....34
Argymhellion Tramwy....35
**7. Casgliadau....36**
Yr Angen am Leiniau Sipsiwn a Theithwyr....36
Yr Angen am Leiniau Siewmyn Teithiol....36
Safleoedd Tramwy....36
Mynd i'r Afael â'r Angen a Nodwyd....36
**Atodiad A: Diffiniad o Dermau Allweddol....37**
**Atodiad B: Safleoedd ac Iardiau ym Mro Morgannwg (Chwefror 2022)....41**
**Atodiad C: Cofnod Cyfweliadau....42**
**Atodiad D: Crynodeb o'r Cyfweliadau ag Aelwydydd....43**
**Atodiad E: Crynodeb o Gyfweliad – Travelling Ahead....46**

**Atodiad F: Deunyddiau Cyhoeddusrwydd ..................... 47**

**Atodiad G: Nodyn Technegol ar Ffurfio a Chyfraddau Twf Aelwydydd..................... 49**

# 1. Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad a Methodoleg

1.1 Prif amcan yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (2022) yw darparu asesiad cadarn o'r angen am lety Sipsiwn a Theithwyr[1] yn awr ac yn y dyfodol ym Mro Morgannwg.

1.2 Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy y gellir ei defnyddio i helpu i ddeall a darparu lleiniau Sipsiwn a Theithwyr a lleiniau Siewmyn Teithiol, a darpariaeth tramwy bosibl, ar gyfer cyfnod Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd Bro Morgannwg hyd at 2036. Bydd canlyniadau'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hwn yn disodli canlyniadau'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr blaenorol a gyhoeddwyd yn 2016.

1.3 Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi ceisio deall anghenion llety'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg trwy gyfuniad o ymchwil wrth ddesg, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac ymgysylltu ag aelodau o gymuned y Teithwyr. Yn ogystal, gwahoddwyd amrywiaeth o randdeiliaid lleol i eistedd ar Grŵp Llywio Prosiect.

1.4 Yn dilyn yr ymgysylltu a chyhoeddusrwydd rhagarweiniol a roddwyd ar waith,[2] cwblhawyd cyfanswm o saith cyfweliad gyda Sipsiwn a Theithwyr a Siewmyn Teithiol sy'n byw ar safleoedd ac mewn iardiau a llety brics a morter ym Mro Morgannwg. Yn ogystal, cwblhawyd gwaith ymgysylltu ag awdurdodau lleol cyfagos a rhanddeiliaid eraill i drafod yr angen posibl am ddarpariaeth tramwy.

1.5 Y dyddiad sylfaenol ar gyfer yr astudiaeth yw **Chwefror 2022**.

## Anghenion Lleiniau – Sipsiwn a Theithwyr

1.6 Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru[3] yn gofyn am ddau asesiad o angen – ar gyfer pum mlynedd cyntaf cyfnod yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hyd at 2026, ac ar gyfer cyfnod llawn yr CDLl newydd hyd at 2036.

1.7 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr astudiaeth hon, amcangyfrifir bod angen darpariaeth lleiniau ychwanegol o **naw llain** ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg am bum mlynedd cyntaf cyfnod astudiaeth yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hyd at 2026 ac mae angen **dwy lain** bellach am weddill cyfnod yr CDLl newydd. Mae hyn yn rhoi cyfanswm angen o **11 llain** tan ddiwedd cyfnod yr CDLl newydd hyd at 2036. Dylid ystyried y ffigurau hyn fel y swm rhagamcanol o ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i fodloni'r rhwymedigaethau statudol tuag at anghenion canfyddadwy'r boblogaeth sy'n codi yn yr ardal. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys cyfuniad o leiniau diawdurdod, gorlenwi, symud o adeiladau brics a morter, a ffurfio aelwydydd newydd.

[1] Gweler Pennod 2 am y diffiniad cynllunio o Deithiwr yng Nghymru.
[2] Gweler Pennod 4 ac Atodiad F am fanylion pellach.
[3] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cynnal-asesiadau-o-anghenion-llety-sipsiwn-a-theithwyr.pdf

1.8 Ceir dadansoddiad manwl sy'n nodi'r cydrannau sy'n rhan o'r angen hwn a nodwyd, ynghyd ag unrhyw faterion eraill a ystyriwyd, ym **Mhennod 6** o'r adroddiad hwn.

## Anghenion Lleiniau – Siewmyn Teithiol

1.9 Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn gofyn am ddau asesiad o angen – ar gyfer pum mlynedd cyntaf cyfnod yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hyd at 2026, ac ar gyfer cyfnod llawn yr CDLl newydd hyd at 2036.

1.10 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr astudiaeth hon, amcangyfrifir nad oes angen darpariaeth lleiniau ychwanegol o **unrhyw leiniau** ar gyfer Siewmyn Teithiol ym Mro Morgannwg am bum mlynedd cyntaf cyfnod astudiaeth yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hyd at 2026 ac nid oes angen **unrhyw leiniau pellach** am weddill cyfnod yr CDLl newydd hyd at 2036.Mae hyn yn rhoi cyfanswm angen o **ddim lleiniau** tan ddiwedd cyfnod yr CDLl newydd hyd at 2036. Dylid ystyried y ffigurau hyn fel y swm rhagamcanol o ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i fodloni'r rhwymedigaethau statudol tuag at anghenion canfyddadwy'r boblogaeth sy'n codi yn yr ardal.

## Argymhellion Tramwy

1.11 Cadarnhaodd trafodaethau â rhanddeiliaid lleol, awdurdodau lleol cyfagos, a dadansoddiad o gofnodion gwersylloedd diawdurdod mai prin yw'r achosion o wersylloedd diawdurdod ym Mro Morgannwg.

1.12 Bu nifer fach o achosion lleol o Deithwyr yn ymweld dros dro â Bro Morgannwg i fynychu priodasau neu ddigwyddiadau eraill, ond ni nodwyd unrhyw dystiolaeth bellach o unrhyw anghenion llety hirdymor na pharhaol.

1.13 Nid oedd canlyniadau'r cyfweliadau ag aelwydydd a thrafodaethau â rhanddeiliaid yn nodi bod angen darpariaeth tramwy barhaol yn lleol, er y bu trafodaethau ynghylch yr angen am fwy o ddarpariaeth tramwy ledled Cymru.

1.14 Fel y cyfryw, argymhellir nad **oes angen i'r Cyngor ddarparu safle tramwy ar hyn o bryd** ym Mro Morgannwg oherwydd y niferoedd isel o wersylloedd diawdurdod, a natur fyrhoedlog y gwersylloedd hyn.

1.15 Argymhellir hefyd y dylai'r Cyngor barhau i fonitro nifer y gwersylloedd diawdurdod ac ystyried y defnydd o oddefiad tymor byr (gan gynnwys trefniadau aros a drafodwyd) i ymdrin ag arosfannau dros dro tymor byr. Dylai'r dull hwn sy'n seiliedig ar reoli hefyd ystyried p'un a ddylid darparu toiledau, dŵr a chyfleusterau sbwriel. Mae nifer o enghreifftiau ledled Cymru a Lloegr lle mae dulliau seiliedig ar reoli o ymdrin â gwersylloedd diawdurdod wedi bod yn llwyddiannus. Ceir enghraifft dda yn www.negotiatedstopping.co.uk. Ceir llawer o enghreifftiau hefyd lle mae awdurdodau lleol yn mabwysiadu ymagwedd fwy strategol a rhanbarthol tuag at fynd i'r afael â materion tramwy, gan gynnwys yn Essex, Swydd Gaerlŷr, Swydd Northampton gynt, a Hampshire.

# 2. Cefndir a Chyd-destun Polisi

## Yr Astudiaeth

2.1 Penodwyd Opinion Research Services (ORS) gan Gyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) fel ymgynghorwyr annibynnol ym mis Medi 2021 i gwblhau asesiad cadarn a chyfredol o'r angen am lety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ac yn ymgasglu ym Mro Morgannwg ar gyfer cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd hyd at 2036.

2.2 Mae'r astudiaeth yn darparu sylfaen dystiolaeth i alluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'i ofynion tuag at Sipsiwn a Theithwyr o dan Ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, ac i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol newydd Bro Morgannwg (2021–36). Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr o leiaf bob pum mlynedd, er bod gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn amlach os nodir newid sylweddol yn lefel yr angen yn yr ardal. Cyhoeddodd y Cyngor Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2016 (yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2026). Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob Awdurdod Cynllunio Lleol ym mis Medi 2019 i gadarnhau bod yn rhaid i'r rhai sy'n cynnal adolygiad CDLl sicrhau bod yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn sefydlu sylfaen dystiolaeth ar gyfer anghenion Sipsiwn a Theithwyr ar draws cyfnod cyfan y cynllun. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru hefyd y gallai hyn olygu y bydd angen cynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd (a darparu dyraniadau safle priodol, lle bo'n berthnasol) cyn yr ymgynghoriad adneuo statudol er mwyn sicrhau bod y broses archwilio yn dod i'r casgliad bod cynlluniau'n gadarn ac y gellir eu mabwysiadu.

2.3 Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hwn yn darparu asesiad o'r angen am lety Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg i gyflawni'r gofynion hyn, gan ddiweddaru'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr blaenorol a gyhoeddwyd yn 2016. Mae'n darparu sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy y gellir ei defnyddio i helpu i ddeall a darparu lleiniau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, a hefyd i gefnogi CDLl newydd Bro Morgannwg (2021–2036).

2.4 Byddem yn nodi ar y cychwyn bod yr astudiaeth yn ymdrin ag anghenion Sipsiwn (gan gynnwys Sipsiwn o Loegr, yr Alban a Chymru a Sipsiwn Roma), Teithwyr Gwyddelig, Teithwyr (Oes) Newydd, a Siewmyn Teithiol, ond er hwylustod rydym wedi cyfeirio at yr astudiaeth fel Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.

2.5 Y dyddiad sylfaenol ar gyfer yr astudiaeth yw **Chwefror 2022**.

## Deddfwriaeth a Chanllawiau

## Cylchlythyr 005/2018 Llywodraeth Cymru

2.6 Mae Cylchlythyr 005/2018 Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar yr agweddau cynllunio ar nodi safleoedd cynaliadwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae hefyd yn amlinellu sut y gall awdurdodau cynllunio a Sipsiwn a Theithwyr gydweithio i gyflawni'r nod hwn. Mae'n disodli'r cyngor a geir yng Nghylchlythyr 30/2007, "Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr", Cylchlythyr 78/91, "Siewmyn Teithiol", a Chylchlythyr 76/94, "Polisi Safleoedd Sipsiwn a Gwersylla Diawdurdod".

2.7 Mae'r cylchlythyr yn cynnwys canllawiau ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys y canlynol:

» Diffiniad o Deithwyr
» Sipsiwn a Theithwyr – Cyd-destun
» Dyletswydd i Ddarparu Safleoedd
» Darparu'r Sylfaen Dystiolaeth
» Gweithio Rhanbarthol
» Cynlluniau Datblygu
» Prosiectau Datblygu Mawr
» Ardaloedd Dynodedig
» Ceisiadau Cynllunio
» Gorfodi
» Apeliadau
» Hawliau Dynol a Chyfle Cyfartal
» Monitro Ceisiadau Cynllunio

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.8 Mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr, mae Cylchlythyr 005/2018 Llywodraeth Cymru yn nodi'r canlynol:

*7. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi fframwaith ar gyfer awdurdodau lleol ledled Cymru i sicrhau y bodlonir yr 'egwyddor datblygu cynaliadwy' (diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain). Mae Adran 4 o'r Ddeddf yn pennu nifer o amcanion llesiant i awdurdodau geisio eu cyflawni er mwyn bodloni'r egwyddor hwn. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys cyflawni 'Cymru o gymunedau cydlynus', sy'n cynnwys cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd wedi eu cysylltu'n dda, a 'Chymru â diwylliant bywiog a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', sy'n cynnwys cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg.*

*8. Mae tai yn fater sylfaenol sy'n effeithio ar fywydau pobl ledled Cymru, gan gynnwys ein cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod amrywiaeth eang o lety ar gael i fodloni anghenion pob aelod o'r gymuned. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau cyfle cyfartal i bob rhan o'r gymuned ac yn yr achos hwn, dylai Sipsiwn a Theithwyr allu cael mynediad cyfartal at lety sy'n briodol i'w diwylliant, yn yr un modd â holl aelodau eraill y gymuned.*

## Deddf Tai (Cymru) 2014

2.9 Mae Rhan 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (y Ddeddf) yn nodi fel a ganlyn: *Rhaid i awdurdod tai lleol, ym mhob cyfnod adolygu, gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswylio yn ei ardal neu sy'n cyrchu yno.*

2.10 Mae adran 102 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi adroddiad y mae'n rhaid iddynt ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ac sydd:

- » yn nodi manylion sut y cynhaliwyd yr asesiad
- » yn cynnwys crynodeb o'r canlynol:
  - ▪ yr ymgynghoriad a wnaeth mewn cysylltiad â'r asesiad
  - ▪ yr ymatebion (os o gwbl) a gafodd i'r ymgynghoriad hwnnw
- » yn manylu ar yr anghenion llety a nodwyd gan yr asesiad

2.11 Unwaith y caiff ei gymeradwyo, rhaid i'r awdurdod tai lleol gyhoeddi'r asesiad.

2.12 Os nodir angen yn adroddiad yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, mae adran 103 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol arfer ei bwerau yn adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 cyn belled ag y bo angen i ddiwallu'r anghenion hynny.

2.13 Mae adran 106 o'r Ddeddf yn nodi y dylai awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru. Cyhoeddwyd canllawiau ar ymgymryd ag Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2015 ac mae'r canllawiau hyn yn dal ar waith.

2.14 Mae'r canllawiau ar ymgymryd ag Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn ymdrin â'r materion canlynol:

- » Pam fod angen Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr penodol?
- » Beth ddylid ei gynhyrchu?
- » Â phwy y mae angen ymgynghori?
- » Pa ffynonellau data sydd angen eu hadolygu?
- » Deall diwylliant cymunedau Sipsiwn a Theithwyr
- » Sut mae adnabod a chyfathrebu â Sipsiwn a Theithwyr?
- » Sut mae dylunio, rheoli a chynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr?
- » Cefnogaeth gyda gweithio mewn partneriaeth a gweithio'n rhanbarthol
- » Archwilio arolygon arbenigol, technegau, a chwestiynau i'w defnyddio
- » Sut mae'r 'angen' ar gyfer llety yn cael ei asesu?
- » Cyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru
- » Sut i wneud darpariaeth ar gyfer angen a nodwyd?

2.15 Mae adran 108 o'r Ddeddf yn nodi'r canlynol:

- » **Anghenion llety** – yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, anghenion mewn perthynas â darparu safleoedd y gellir gosod cartrefi symudol arnynt.
- » **Sipsiwn a Theithwyr** – ystyr hyn yw personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, ac aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcasau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio), ac

unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.

» **Cartref symudol** – mae iddo'r ystyr a roddir gan adran 60 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

## Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

2.16 Mae'r canllawiau ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn nodi'r gofyniad bod yn rhaid i awdurdodau lleol fodloni dyletswydd gyfreithiol i arfer eu swyddogaethau i ddarparu lleiniau cartrefi symudol i ddiwallu unrhyw anghenion a nodir. Mae'r rhain wedi'u nodi yn adran 60 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

2.17 Yn y Ddeddf hon, *ystyr "cartref symudol" yw:*

» *Unrhyw strwythur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo ac sy'n gallu cael ei symud o'r naill le i'r llall (boed drwy ei dynnu neu drwy ei gludo ar gefn cerbyd modur neu ôl-gerbyd) ac unrhyw gerbyd modur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo, ond nid yw'n cynnwys unrhyw gerbydau rheilffyrdd sydd am y tro ar gledrau sy'n ffurfio rhan o system reilffyrdd, neu unrhyw babell.*

» *Strwythur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo ac sydd wedi ei gyfansoddi o heb fod yn fwy na dwy adran sydd wedi eu hadeiladu ar wahân ac sydd wedi eu dylunio i gael eu cydosod ar safle drwy gyfrwng bolltau, clampiau neu ddyfeisiau eraill, ac sydd, o'i gydosod, yn ffisegol yn gallu cael ei symud ar y ffordd o'r naill le i'r llall (boed drwy ei dynnu neu drwy ei gludo ar gefn cerbyd modur neu ôl-gerbyd).*

## Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddylunio a Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

2.18 Yn ogystal â chyhoeddi canllawiau ar gynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ym mis Mai 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd ganllawiau ychwanegol ar ddylunio a rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Bwriedir i'r ddwy ddogfen hyn fod yn ganllaw i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau priodol am gost resymol i bwrs y wlad i Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd preswyl yng Nghymru. Maent yn cynnwys canllawiau ymarferol i gynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau bod safleoedd yn addas at y diben, a sut orau i reoli safleoedd cyhoeddus i Deithwyr. Nid yw'r canllawiau yn statudol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd y canllawiau yn helpu awdurdodau lleol ac eraill i ddatblygu, gwella a rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, a byddant yn rhan o ystyriaeth Llywodraeth Cymru wrth asesu ceisiadau am gyllid ar gyfer safleoedd gan y Grant Cyfalaf Sipsiwn a Theithwyr.

## Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg (2011–2026), Mabwysiadwyd Mehefin 2017

2.19 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg (2011–2026) gan Gyngor Bro Morgannwg ym mis Mehefin 2017 a daeth yn weithredol ar unwaith. Roedd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig yn disodli dogfen gynharach Cynllun Datblygu Unedol Bro Morgannwg 1996–2011. Ym mis Mehefin 2021, sbardunodd y Cyngor adolygiad o'r CDLl mabwysiedig ac mae wedi dechrau gwaith ar CDLl newydd ar gyfer y cyfnod o 2021 hyd at 2036.

2.20 Mae Polisi MG5 (Safle Sipsiwn a Theithwyr) yn y CDLl mabwysiedig yn nodi tir yn Llanganna ar gyfer darparu safle dwy lain i Sipsiwn a Theithwyr, ac mae Polisi MD18 – Llety Sipsiwn a Theithwyr yn cyfeirio at gynigion ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr ychwanegol.

POLISI MG5 – SAFLE SIPSIWN A THEITHWYR

Dyrennir tir yn Llangan i ddarparu safle sipsiwn a theithwyr â dwy lain.

**6.34** Mae adrannau 101 i 103 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr o fewn eu hardal a dyrannu safle(oedd) digonol yn CDLl y Cyngor i ddiwallu'r angen lle canfuwyd angen o'r fath.

**6.35** Canfu Asesiad Bro Morgannwg o Lety Sipsiwn a Theithwyr 2016 angen sydd heb ei ddiwallu am ddwy lain breswyl dros y tymor byr a chanolig ac angen pellach sydd heb ei ddiwallu am 18 llain breswyl am weddill cyfnod y cynllun datblygu (h.y. ar ôl 2021). Mae'r fframwaith monitro'n nodi camau arfaethedig y Cyngor i adnabod a darparu safle pellach i ddiwallu'r angen hwn sydd heb ei ddiwallu.

**6.36** Mae'r safle Sipsiwn a Theithwyr presennol yn Llangan dan berchnogaeth y Cyngor ac ystyrir ei fod yn addas i ddiwallu'r angen yn y tymor byr a chanolig am ddwy lain a ganfuwyd yn yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Bro Morgannwg (Mai 2016)).

**6.37** Mae Fframwaith Monitro'r Cyngor wedi nodi amserlen dwy flynedd i adnabod safle priodol i ddiwallu unrhyw anghenion a fydd yn codi yn y dyfodol mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr.

**6.38** O ran darparu safleoedd tramwy daeth yr Asesiad o Llety Sipsiwn a Theithwyr i'r casgliad nad oes angen ar hyn o bryd i'r Cyngor ddarparu safle tramwy ym Mro Morgannwg. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor barhau i fonitro nifer y gwersylloedd diawdurdod ac ystyried defnyddio goddefgarwch byrdymor neu Drefniadau Atal wedi'u Negodi i ymdrin ag unrhyw arosiadau tramwy byrdymor.

**Polisi MD18 – Llety Sipsiwn a Theithwyr**

Bydd cynigion ar gyfer llety ychwanegol i sipsiwn a theithwyr yn cael eu caniatáu ar yr amod:

**1.** Bod mynediad rhesymol o'r safle at wasanaethau, cyfleusterau a chyflogaeth o ddydd i ddydd, gan gynnwys ysgolion, cyfleusterau meddygol, siopau a chyfleusterau cymunedol;

**2.** Bod maint y safle a nifer y lleiniau'n briodol i'w leoliad ac anghenion yr ymgeisydd o ran llety;

**3.** Bod gwasanaethau digonol ar y safle ar gyfer cyflenwi dŵr, draenio, carthffosiaeth, trydan a gwaredu gwastraff ar gael neu'n gallu cael eu darparu heb achosi unrhyw effaith amgylcheddol annerbyniol; a

**4.** Bod y rhwydwaith priffyrdd presennol yn ddigonol i wasanaethu'r safle ac y gellir darparu mynedfa foddhaol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer parcio, troi, gwasanaethu a cherbydau brys.

*Bydd ffafriaeth o blaid diwallu anghenion llety ar unrhyw rai o'r canlynol*:

• Safleoedd sipsiwn a theithwyr sydd wedi'u dyrannu;

• Safleoedd sipsiwn a theithwyr presennol neu ar estyniadau priodol i'r safleoedd hynny; neu

• Safleoedd o fewn aneddiadau presennol.

**7.85** Mae canllawiau cenedlaethol yn cydnabod yr angen am Bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf er mwyn asesu safleoedd preifat neu safleoedd eraill arfaethedig ar gyfer sipsiwn a theithwyr, er mwyn ateb y galw yn y dyfodol neu alw annisgwyl. Rhaid i bolisïau fod yn deg, yn rhesymol, yn realistig ac yn effeithiol o ran darparu safleoedd. Yn unol â hynny, mae Polisi MD18 yn nodi'r meini prawf ar gyfer llety newydd i sipsiwn a theithwyr.

**7.86** Lle ystyrir bod cyfiawnhad dros y cynnig, bydd caniatâd cynllunio wedi'i gyfyngu i'r ymgeisydd a'i deulu preswyl dibynnol. Hefyd, bydd cynaliadwyedd y safle o ran mynediad at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol yn ffactor pwysig wrth benderfynu ynghylch addasrwydd y cynigion.

**7.87** Gall y Cyngor osod amodau cynllunio i reoli defnyddiau busnes ac adeiladau cysylltiedig ar y safle er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn atodol i ddefnydd preswyl. Yn y cyswllt hwn a lle y bo'n berthnasol, dylid cyflwyno manylion unrhyw gynigion ar gyfer storio cyfarpar ac offer sy'n gysylltiedig â gweithgareddau busnes y rhai sy'n byw ar y safle gyda cheisiadau cynllunio.

## Diffiniad o Dermau Allweddol

2.21 Mae canllawiau 2015 ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn cynnwys diffiniadau cyffredin a ddefnyddiwyd yn y canllawiau ac a fydd hefyd yn cael eu defnyddio yn adroddiad yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Gellir dod o hyd i'r rhain yn **Atodiad A**.

# 3. Dadansoddiad o Ddata Presennol

3.1 Diben yr adran hon o'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yw nodi'r wybodaeth gyfredol sy'n ymwneud â'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg, gan gynnwys asesiadau blaenorol o angen, data cymdeithasol-ddemograffig, data cyfrif carafannau a'r ddarpariaeth bresennol o lety.

## Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Presennol a Blaenorol

## Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Bro Morgannwg 2016–2026

3.2 Cyhoeddwyd yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf ar gyfer Bro Morgannwg yn 2016[4] ac mae'n cwmpasu'r cyfnod hyd at 2026. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr astudiaeth, amcangyfrifir bod angen dwy lain ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg am bum mlynedd cyntaf cyfnod cynllun yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, a nodwyd bod angen 18 llain arall am weddill cyfnod cynllun yr asesiad. Rhoddodd hyn gyfanswm angen o 20 llain am gyfnod cyfan cynllun yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.

3.3 Daeth Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 i'r casgliad nad oedd unrhyw angen tai ychwanegol ym Mro Morgannwg ar gyfer Siewmyn Teithiol.

## Data Poblogaeth – Cyfrifiad 2011

3.4 Nododd dadansoddiad o ddata Cyfrifiad 2011 yn ymwneud â'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr gyfanswm o chwe aelwyd a 21 o unigolion a nododd eu bod yn Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn byw ym Mro Morgannwg – sy'n cynrychioli llai na 0.01% o'r boblogaeth gyfan. Mae'n debygol y gallai hyn fod yn amcangyfrif rhy isel o ystyried y lefelau ymateb is na'r cyfartaledd a dderbynnir i'r Cyfrifiad gan aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Efallai y bydd Cyfrifiad 2021 yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr drwy gynnwys Roma yn y cwestiwn am ethnigrwydd.

3.5 Er gwaethaf y tanamcangyfrif tebygol o boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig, mae data o Gyfrifiad 2011 yn nodi rhai gwahaniaethau demograffig sylweddol o gymharu â'r boblogaeth gyfan. Mae'r rhain yn bwysig o ran egluro'r gyfradd uwch o aelwydydd newydd sy'n cael eu ffurfio ar gyfer aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr o gymharu â'r boblogaeth sefydlog. I grynhoi, mae'r Cyfrifiad yn dangos y canlynol yn genedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr:

» Roedd gan ychydig o dan hanner aelwydydd Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig blant dibynnol (45%), o gymharu â 29% ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol.

» Oed canolrifol Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig oedd 26 oed o'i gymharu â'r canolrif cenedlaethol o 39 mlynedd.

» Dim ond 6% o'r boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig oedd yn 65 oed a throsodd o gymharu â ffigwr cenedlaethol o 16%.

» Roedd Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig o dan 20 oed yn cyfrif am 39% o'r boblogaeth o gymharu â ffigwr cenedlaethol o 24%.


[4] https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Housing/Gypsy-and-Traveller-Accommodation-Assessment-Welsh.pdf

» Roedd Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig o dan 10 oed yn cyfrif am 20% o'r boblogaeth o gymharu â ffigwr cenedlaethol o 12%.

» Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig oedd â'r gyfran isaf o bobl yn graddio eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn, ar 70%, o gymharu â ffigwr cenedlaethol o 81%.

3.6 Mae'r siart isod yn dangos y strwythur oedran ar gyfer y boblogaeth gyfan (pawb) a'r boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn dangos bod cyfran uwch o blant Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig ac oedolion iau, a chyfrannau sylweddol is o'r rhai 50 oed a hŷn. Mae hyn oherwydd cyfraddau geni uwch a disgwyliad oes is ar gyfer y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr. Yn anffodus, oherwydd y niferoedd isel o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig a nodwyd yn y Cyfrifiad sy'n byw ym Mro Morgannwg, nid yw'n bosibl gwneud unrhyw gymariaethau ystyrlon ar lefel leol.

**Ffigur 1 – Cymharu Strwythur Oedran y Cyfrifiad (Cyfrifiad 2011)**




## Data Cyfrif Carafannau

3.7 Ffynhonnell arall o wybodaeth gyhoeddedig am y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yw Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru, sy'n defnyddio data a ddarperir gan awdurdodau lleol ac a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn.

3.8 Mae hwn yn gyfrif ffisegol o nifer y *carafanau* ar safleoedd awdurdodedig a diawdurdod ledled Cymru. Gan mai cyfrif o garafanau yw hyn *ac nid* aelwydydd, mae'n ei gwneud yn anodd iawn ei ddehongli a'i ddefnyddio ar gyfer astudiaeth fel hon oherwydd nid yw'n cyfrif lleiniau, aelwydydd preswyl na demograffeg aelwydydd. Dim ond 'ciplun mewn amser' yw'r cyfrif a gynhelir gan yr awdurdod lleol ar ddiwrnod penodol, ac felly nid yw unrhyw safleoedd neu wersylloedd diawdurdod sy'n digwydd ar ddyddiadau eraill yn cael eu cofnodi. Yn yr un modd, ni fydd unrhyw garafanau sydd heb fod yn bresennol ar safleoedd ar ddiwrnod y cyfrif yn cael eu cynnwys. Nid yw'r cyfrif ychwaith yn ceisio pennu statws ethnig meddianwyr carafanau.

3.9 Fodd bynnag, mae'r data a gasglwyd yn y Cyfrif Carafannau yn rhoi syniad o nifer y safleoedd, a'r carafanau awdurdodedig a diawdurdod ym mhob awdurdod lleol, a gall fod yn ddefnyddiol i gefnogi'r broses o bennu unrhyw anghenion tramwy a nodi tueddiadau o flwyddyn i flwyddyn i gefnogi asesiad o angen.

3.10 Mae’r data Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf ar gyfer Cymru yn dyddio o fis Gorffennaf 2021 ac fe’i cyhoeddwyd ym mis Hydref 2021.

3.11 Mae dadansoddiad o’r Data Cyfrif Carafannau ar gyfer Bro Morgannwg rhwng Ionawr 2010 a Gorffennaf 2021 yn dangos bod pedwar safle diawdurdod wedi’u cofnodi yn y blynyddoedd diwethaf, gyda 30 o garafanau a oddefir ar y safleoedd (tri ar dir sy’n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr a 27 ar dir nad yw'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr).

3.12 Yn ogystal, darparwyd manylion y gwersylloedd a gofnodwyd gan y Cyngor ac fe'u dadansoddwyd i helpu i benderfynu p'un a oedd unrhyw angen am ddarpariaeth tramwy. Gweler Pennod 6 am fanylion pellach.

## Darpariaeth Llety Bresennol

3.13 Un o brif ystyriaethau’r astudiaeth hon yw darparu tystiolaeth i gefnogi’r ddarpariaeth o leiniau i ddiwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg yn awr ac yn y dyfodol. Yn gyffredinol, mae llain yn ardal sy’n ddigon mawr i un aelwyd ei meddiannu ac fel arfer mae’n cynnwys digon o le ar gyfer un neu ddwy garafán ond gall amrywio o ran maint. Casgliad o leiniau yw safle sy’n ffurfio datblygiad ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn unig. Ar gyfer Siewmyn Teithiol, y disgrifiadau mwyaf cyffredin a ddefnyddir yw llain ar gyfer y gofod a feddiannir gan un aelwyd ac iard ar gyfer casgliad o leiniau sydd fel arfer yn cael eu meddiannu'n gyfan gwbl gan Siewmyn Teithiol.

3.14 Mae'r ddarpariaeth gyhoeddus a phreifat o dai prif ffrwd hefyd yn cael ei hadlewyrchu i raddau helaeth wrth ystyried llety Sipsiwn a Theithwyr. Un ffurf gyffredin ar safle Sipsiwn a Theithwyr yw safle preswyl a ddarperir yn gyhoeddus, sef gan awdurdod lleol neu gymdeithas tai. Gellir cael lleiniau ar safleoedd cyhoeddus fel arfer trwy gofrestru ar restr aros, a thelir costau rhedeg y safleoedd o'r rhent a delir gan y tenantiaid (yn debyg i dai cymdeithasol).

3.15 Y dewisiadau amgen i safleoedd preswyl cyhoeddus yw safleoedd ac iardiau preswyl preifat ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r rhain yn deillio o unigolion neu deuluoedd yn prynu darnau o dir ac yna'n cael caniatâd cynllunio i fyw arnynt. Gall aelwydydd hefyd rentu lleiniau ar rai safleoedd preifat sy’n cael eu rhedeg ar sail fasnachol. Felly, mae’r ddau fath hyn o lety yn cyfateb i berchnogaeth breifat a rhentu ar gyfer y rhai sy’n byw mewn tai brics a morter. Yn gyffredinol, mae’r rhan fwyaf o iardiau Siewmyn Teithiol dan berchnogaeth breifat ac yn cael eu rheoli’n breifat.

3.16 Mae gan y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr hefyd fathau eraill o safleoedd oherwydd eu natur symudol. Mae safleoedd tramwy yn tueddu i gynnwys llawer o’r un cyfleusterau â safle preswyl, ac eithrio bod cyfnod preswyl cyfyngedig, a all amrywio o gyfnod o wythnosau i gyfnod o fisoedd. Dewis arall yn lle safle tramwy yw man aros brys. Mae gan y math hwn o safle hefyd gyfyngiadau ar yr amser y gall rhywun aros arno ond mae ganddo gyfleusterau llawer mwy cyfyngedig. Dewis arall yw Cytundeb Aros wedi’i Negodi sy’n caniatáu i deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr sefydlu gwersylloedd tymor byr cyn belled â’u bod yn cytuno i amodau penodol. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, am gyfnod dros dro, wrth iddynt deithio. Mae nifer o awdurdodau hefyd yn gweithredu polisi gwersylloedd derbyniol lle mae arosfannau tymor byr yn cael eu goddef heb gamau gorfodi.

3.17 Ystyriaethau pellach ar gyfer y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yw datblygiadau a gwersylloedd diawdurdod. Mae datblygiadau diawdurdod yn digwydd ar dir sy'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr neu gyda chymeradwyaeth y tirfeddiannwr, ond nad oes caniatâd cynllunio ar y tir i'w ddefnyddio at ddibenion

preswyl. Mae gwersylloedd diawdurdod yn digwydd ar dir nad yw'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr – er enghraifft, cilfannau neu feysydd parcio.

## Safleoedd ac Iardiau ym Mro Morgannwg

3.18 Ym Mro Morgannwg, ar ddyddiad sylfaen yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, nid oedd unrhyw safleoedd cyhoeddus ac roedd tri safle preifat gyda chaniatâd cynllunio parhaol (pum llain), un safle a oddefir (17 llain), a dau ddatblygiad diawdurdod (pedair llain). Nid oedd unrhyw iardiau Siewmyn Teithiol wedi'u nodi ym Mro Morgannwg ac ni nodwyd unrhyw ddarpariaeth tramwy.

3.19 Dylid nodi bod y safle yn Hen Chwarel Brocastell (gweler Ffigur 3 isod) wedi ei restru fel datblygiad diawdurdod, ond mae'r safle ar hyn o bryd yn destun cais cynllunio ôl-weithredol sy'n cael ei ystyried gan y Cyngor.

3.20 Ceir rhagor o fanylion ym Mhennod 5 ac **Atodiad B**.

**Ffigur 2 – Cyfanswm y Ddarpariaeth ym Mro Morgannwg (Chwefror 2022)**

| Categori | Safleoedd/Iardiau | Lleiniau |
|---|---|---|
| Preifat gyda chaniatâd cynllunio parhaol | 3 | 5 |
| Safleoedd preifat gyda chaniatâd cynllunio dros dro | 0 | 0 |
| Safleoedd cyhoeddus | 0 | 0 |
| Darpariaeth tramwy gyhoeddus (tymhorol) | 0 | 0 |
| Darpariaeth tramwy breifat | 0 | 0 |
| Safleoedd a oddefir | 1 | 17 |
| Safleoedd diawdurdod | 2 | 4 |
| Iardiau Siewmyn Teithiol | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **6** | **26** |

**Ffigur 3 – Safleoedd a Iardiau ym Mro Morgannwg (Chwefror 2022)**

| Enw'r Safle | Lleiniau | Statws |
|---|---|---|
| Tir oddi ar Heol Las, y Bont-faen | 1 | Preifat – Awdurdodedig |
| The Stables, Tresimwn | 1 | Preifat – Awdurdodedig |
| Travellers Rest, Eglwys Fair y Mynydd | 3 | Preifat – Awdurdodedig |
| Hayes Road, Sili | 17 | Safle a oddefir |
| Tir yn Hen Chwarel Brocastell, Crack Hill | 3 | Datblygiad Diawdurdod[5] |
| Twyn yr Odyn, Llwyneliddon | 1 | Datblygiad Diawdurdod |
| **Cyfanswm** | **26** | |

[5] Gweler para 3.19.

# 4. Methodoleg

4.1 Mae'r adran hon yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyflawni'r allbynnau ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, a gyhoeddwyd o dan adran 106 o'r Ddeddf Tai (Cymru), yn nodi'r gofynion ar gyfer yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys y fethodoleg a'r cyfrifiad o angen a ddilynwyd i fynd i'r afael â'r rhain a chaniatáu ar gyfer cwblhau Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr sydd yn llawn ac yn gadarn.

4.2 Mae'r astudiaeth wedi'i chynnal gan Opinion Research Services, ar y cyd â Chyngor Bro Morgannwg, ac mae'r dull a ddefnyddiwyd yn cwmpasu'r meysydd gwaith craidd a ganlyn:

» Grŵp Llywio Prosiect Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

» Nodi a dadansoddi ffynonellau data presennol

» Rhoi cyhoeddusrwydd i'r asesiad o anghenion llety

» Cynnal arolygon yr asesiad o anghenion llety

» Cyfrifo anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr

4.3 Mae'r camau isod yn rhoi crynodeb o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gwblhau'r astudiaeth hon.

## Grŵp Llywio Prosiect Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

4.4 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn mynnu bod grŵp llywio prosiect yn cael ei sefydlu i sicrhau bod yr astudiaeth yn cael ei llywio gan yr holl wybodaeth ac arbenigedd lleol sydd ar gael. Sefydlodd a rheolodd y Cyngor grŵp llywio ar gyfer Bro Morgannwg. Yr unigolion a fynychodd gyfarfodydd Grŵp Llywio'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr oedd fel a ganlyn:

**Ffigur 4 – Aelodaeth Grŵp Llywio Prosiect Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr**

| Enw | Sefydliad | Teitl Swydd |
|---|---|---|
| Carol Price | Awdurdod Lleol | Cydlynydd y Strategaeth Dai |
| John Marks | Awdurdod Lleol | Uwch-gynllunydd |
| Lucy Butler | Awdurdod Lleol | Prif Gynllunydd |
| Nick Jones | Awdurdod Lleol | Rheolwr Gweithredol Tai Cyhoeddus |
| Sandra Saif | Awdurdod Lleol | Cydgysylltydd Gwaith Achos Grwpiau Agored i Niwed |
| Stephen Ware | Awdurdod Lleol | Uwch-swyddog Cyfryngau |
| Tim Greaves | Awdurdod Lleol | Cydlynydd Cydraddoldeb |
| Michael Bayliss | ORS | Ymchwilydd |
| Steve Jarman | ORS | Pennaeth Asesiadau o Anghenion Teithwyr |
| Georgia Williams | Bro Ddiogelach | Swyddog Cydlyniant Cymunedol |
| Kevin Jones | Heddlu De Cymru | Swyddog Cymunedau a Phartneriaethau |
| Trudy Aspinwall | Travelling Ahead | Rheolwr Tîm |

4.5 Fel y nodir yn y canllawiau ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, cyfrifoldebau allweddol y grŵp llywio oedd cytuno ar nodau ac amcanion yr astudiaeth; hyrwyddo manteision yr astudiaeth i aelodau cymuned y Teithwyr; helpu i nodi aelwydydd sy’n byw mewn tai brics a morter ac ar safleoedd a gwersylloedd diawdurdod; darparu mewnbwn arbenigol gan randdeiliaid i nodi angen lleol; darparu adborth ar yr allbynnau sy'n dod i'r amlwg o'r astudiaeth; a rhannu a hyrwyddo'r canlyniadau terfynol i aelodau cymuned y Teithwyr. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp llywio ar 21 Hydref 2021; roedd ail gyfarfod y grŵp llywio ar 9 Rhagfyr 2021; a bydd cyfarfod grŵp llywio terfynol yn cael ei drefnu unwaith y bydd adroddiad yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor. Mae pob cyfarfod wedi'i gynnal ar-lein oherwydd COVID-19.

4.6 Trafododd cyfarfod cyntaf y grŵp llywio gefndir yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ac eglurodd ddiben a rôl y grŵp. Trafodwyd hefyd ffyrdd o gyfathrebu’r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, ynghyd â chyfleoedd i ymgysylltu ag aelwydydd sy’n byw mewn tai brics a morter. Roedd ail gyfarfod y grŵp llywio yn gyfle i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y canlyniadau sy'n dod i'r amlwg o'r gwaith maes ac i drafod yr asesiad o anghenion. Mae cyfarfod olaf y grŵp llywio i fod i drafod rhannu adroddiad yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, gan drafod sut y gellid cyfathrebu canlyniadau'r astudiaeth i aelodau cymuned y Teithwyr a sut i fynd i'r afael â'r angen a nodwyd ym mholisïau'r CDLl.

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

4.7 Yn ogystal â’r grŵp llywio, cysylltwyd â nifer o randdeiliaid a restrir yn Atodiad 1 yn y canllawiau ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i nodi p'un a oedd ganddynt unrhyw faterion penodol yr hoffent eu codi mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg. Y sefydliadau y cysylltwyd â nhw oedd fel a ganlyn:

» Gypsies and Travellers Wales
» Travelling Ahead
» The Unity Project
» The Bridges Project
» Urdd Siewmyn Prydain Fawr – De Cymru
» Mudiad y Teithwyr
» Cyfeillion, Teuluoedd a Theithwyr
» Ffederasiwn Cenedlaethol Grwpiau Cyswllt Sipsiwn
» Cyngor y Sipsiwn
» Grŵp Cymorth Roma

4.8 Ar adeg paratoi’r adroddiad hwn, yr unig ymateb a dderbyniwyd oedd gan Travelling Ahead ac mae crynodeb o’r cyfweliad a gwblhawyd i’w weld yn **Atodiad E**.

## Nodi a Dadansoddi Data Presennol

4.9 Cynhaliwyd adolygiad wrth ddesg i goladu a dadansoddi ystod o ddata eilaidd a gwybodaeth leol arall a ddefnyddiwyd i nodi a chefnogi'r asesiad o'r angen am lety yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys y canlynol:

» Cofnodion cynllunio

» Data'r Cyfrifiad

» Cofnodion safle a rhestrau aros

» Data'r Cyfrif Carafannau

» Cofnodion o safleoedd/gwersylloedd diawdurdod

» Gwybodaeth am geisiadau/apeliadau cynllunio

» Gwybodaeth am gamau gorfodi

» Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr presennol ac astudiaethau lleol perthnasol eraill

» Polisi, canllawiau ac arferion gorau cenedlaethol a lleol presennol

## Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Asesiad o Anghenion Llety

4.10 Er mwyn cael cefnogaeth gan aelodau cymuned y Teithwyr i sicrhau eu bod yn gallu ac yn fodlon cymryd rhan yn y cyfweliadau safle ac aelwydydd a darparu gwybodaeth gywir, roedd yn bwysig bod cyhoeddusrwydd a gwaith hysbysu ymlaen llaw effeithiol yn cael eu rhoi ar waith. Roedd hyn hefyd yn bwysig iawn o ran nodi aelwydydd sy'n byw mewn llety brics a morter i'w cyfweld fel rhan o'r astudiaeth.

4.11 Trafodwyd y dull cyhoeddusrwydd gydag aelodau'r grŵp llywio cyn i'r gwaith maes ddechrau. Roedd y cyhoeddusrwydd hwn a roddwyd ar waith yn dilyn y dulliau safonol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ac yn cynnwys y camau gweithredu isod (gellir gweld enghreifftiau yn **Atodiad F**):

» Posteri a thaflenni mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol a llyfrgelloedd

» Gwahodd aelwydydd a oedd wedi nodi eu bod yn Sipsiwn, Teithwyr neu Siewmyn Teithiol sydd ar hyn o bryd mewn tai cyngor, neu sydd wedi'u cofrestru ar restr aros tai'r Cyngor, i gymryd rhan yn yr arolwg

» Hyrwyddo'r arolwg trwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy wefan y Cyngor[6]

» Dosbarthu gwybodaeth gan sefydliadau eiriolaeth Sipsiwn a Theithwyr

» Cysylltu â sefydliadau a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

[6] https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/consultation/Have-Your-Say-on-Gypsy-Traveller-and-Showpeople-Sites.aspx

## Cynnal Arolygon yr Asesiad o Anghenion Llety

### Cyfweliadau Aelwydydd

4.12 Trwy’r ymchwil wrth ddesg a’r wybodaeth gan y grŵp llywio, ceisiodd ORS nodi’r holl safleoedd, iardiau a gwersylloedd awdurdodedig a diawdurdod ym Mro Morgannwg, a cheisiodd gynnal astudiaeth ddemograffig lawn o’r preswylwyr ar bob llain – fel sy'n ofynnol gan ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.

4.13 Cysylltodd ymchwilwyr o ORS â phreswylwyr ar safleoedd i gwblhau cyfweliad yn unol â phroses asesu risg COVID-19 ORS. Gofynnodd un aelwyd am gael cwblhau ei chyfweliad dros y ffôn. Cynhaliwyd pob cyfweliad arall wyneb yn wyneb, wrth gynnal gweithdrefnau asesu risg COVID-19. Cwblhawyd cyfweliadau gyda phob aelwyd gan ddefnyddio cwestiynau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfweld ag aelwydydd mewn Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Ni chredir y cafodd COVID-19 unrhyw ffactor cyfyngol ar y broses cyfweld ag aelwydydd.

### Cyfweliadau Tai Brics a Morter

4.14 Gweithiodd ORS yn agos gyda'r Cyngor i nodi ac annog aelwydydd sy'n byw mewn tai brics a morter i gymryd rhan yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Roedd y Cyngor yn gallu darparu rhestr i ORS o ymgeiswyr ar gyfer cysylltiadau tai cyngor a nododd eu bod yn Sipsiwn neu Deithwyr a thenantiaid mewn tai brics a morter ar hyn o bryd a nododd eu bod yn Sipsiwn neu Deithwyr. Arweiniodd hyn at nodi cyfanswm o bedair aelwyd a ddywedodd wrth y Cyngor eu bod yn fodlon ateb cwestiynau gan ORS. Roedd pawb ar y rhestr hefyd eisoes wedi dweud wrth y Cyngor eu bod yn fodlon ar y cyfan i aros mewn llety brics a morter.

4.15 Ceisiwyd cysylltiadau hefyd trwy aelodau'r grŵp llywio, trwy siarad â phobl ar safleoedd presennol, a thrwy bosteri wedi'u harddangos ar hysbysfyrddau cymunedol ac o fewn cymunedau lleol. Trwy siarad â phobl ar safleoedd, nodwyd aelwyd arall yn byw mewn tŷ brics a morter.

4.16 Cysylltodd ymchwilwyr o ORS â phreswylwyr sy’n byw mewn tai brics a morter dros y ffôn i ofyn am apwyntiad i gwblhau cyfweliad yn unol â phroses asesu risg COVID-19 ORS. Gofynnodd y ddwy aelwyd a gyfwelwyd i gwblhau eu cyfweliadau dros y ffôn. Cwblhawyd cyfweliadau gyda phob aelwyd gan ddefnyddio cwestiynau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfweld ag aelwydydd mewn Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Yn dilyn canllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru a oedd yn nodi y dylid cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb lle bynnag y bo modd, ailgysylltwyd ag aelwydydd i weld p'un a hoffent gwblhau cyfweliad wyneb yn wyneb pellach, ond dywedodd pob aelwyd y byddai'n well ganddynt gwblhau cyfweliadau dros y ffôn.

### Cyfrifo Anghenion Llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol

4.17 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn nodi methodoleg fanwl i asesu anghenion lleiniau yn awr ac yn y dyfodol. Dilynwyd y dull hwn at ddiben yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hwn. Fel gydag unrhyw asesiad tai, mae'r cyfrifiad

sylfaenol yn cynnwys nifer gymharol fach o ffactorau. Yn yr achos hwn, y mater allweddol ar gyfer lleiniau preswyl yw cymharu'r cyflenwad o leiniau sydd ar gael i'w meddiannu ag anghenion y boblogaeth yn awr ac yn y dyfodol. Cafwyd yr wybodaeth hon o gyfuniad o'r ymchwil wrth ddesg a chanlyniadau'r cyfweliadau safle ac aelwydydd, ynghyd â gwybodaeth ychwanegol gan aelodau'r grŵp llywio a rhanddeiliaid lleol eraill. Mae'r ffactorau allweddol ym mhob un o'r elfennau hyn wedi'u nodi isod.

## Cyflenwad Preswyl Presennol

» Lleiniau awdurdod lleol wedi'u meddiannu

» Lleiniau preifat awdurdodedig wedi'u meddiannu

» Lleiniau gwag awdurdod lleol a lleiniau preifat sydd ar gael

» Lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag yn y dyfodol agos

» Lleiniau preifat awdurdod lleol newydd gyda chaniatâd cynllunio

## Galw Preswyl Presennol

4.18 Mae cyfanswm y galw preswyl presennol yn cynnwys y cydrannau canlynol. Roedd yn bwysig gwneud defnydd llawn o'r ymchwil wrth ddesg a gwybodaeth gan aelodau'r grŵp llywio i fynd i'r afael â materion cyfrif dwbl (er enghraifft, aelwydydd brics a morter sydd hefyd ar y rhestr aros am leiniau):

» Aelwydydd ar wersylloedd diawdurdod

» Aelwydydd ar ddatblygiadau diawdurdod

» Aelwydydd cudd/gorlawn/dwbl[7]

» Tai confensiynol – symud o adeiladau brics a morter[8]

» Aelwydydd newydd i gyrraedd o restrau aros / mewnfudo

## Galw yn y Dyfodol

4.19 Mae cyfanswm y galw yn y dyfodol yn ganlyniad i ffurfio aelwydydd newydd yn ystod cyfnod yr astudiaeth. Mae ORS wedi cynnal ymchwil helaeth i dwf poblogaeth ac aelwydydd y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a Lloegr (**Atodiad G**). Defnyddiwyd hon i lywio'r elfen hon o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (gweler paragraffau 203–209). Mae paragraff 203 yn nodi'r ymchwil a gwblhawyd gan ORS ac yn awgrymu bod cyfradd twf derbyniol fel arfer o fewn yr ystod o 1.50% – 3.00% y flwyddyn ac mae paragraff 204 yn nodi y dylai awdurdodau lleol ddadansoddi'r data demograffig a ddarperir gan aelodau cymunedau i ystyried eu twf aelwydydd lleol eu hunain a ragwelir yn y dyfodol.

[7] Yn dilyn y canllawiau a nodir ym mharagraffau 195–201 o'r canllawiau ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.

[8] Yn dilyn y canllawiau a nodir ym mharagraffau 172–183 o'r canllawiau ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

4.20 Mae gwybodaeth o'r cyfweliadau safle yn rhoi manylion am nifer gros yr aelwydydd newydd y disgwylir iddynt ffurfio o fewn pum mlynedd cyntaf yr astudiaeth.

4.21 Mae'r amcangyfrif o ffurfio aelwydydd newydd ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o'r astudiaeth wedi'i gwblhau yn seiliedig ar dystiolaeth ddemograffig o'r cyfweliadau safle a gwblhawyd. Mae rhagor o dystiolaeth i gefnogi'r dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo ffurfio aelwydydd newydd wedi'i nodi ym Mhennod 6.

## Canlyniadau Terfynol

4.22 Mae holl gydrannau cyflenwad a galw wedi'u cyflwyno mewn tabl hawdd ei ddeall, fel y nodir yn y canllawiau ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, yn Nhabl 3. Mae tabl ar wahân wedi'i baratoi ar gyfer anghenion Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol yn awr ac yn y dyfodol gan y dylid ystyried eu hanghenion yn annibynnol gan fod eu hamgylchiadau yn wahanol i rai cymuned ehangach y Teithwyr.

## Darpariaeth Tramwy

4.23 Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hefyd yn cynnwys asesiad o'r angen am unrhyw safleoedd tramwy neu fannau aros dros dro i ddiwallu anghenion aelodau cymuned y Teithwyr sydd naill ai'n teithio'n barhaol neu am ran o'r flwyddyn. Er mwyn ymchwilio i'r angen posibl am ddarpariaeth tramwy wrth gynnal yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, mae ORS wedi cynnal dadansoddiad o gofnodion safleoedd a gwersylloedd diawdurdod a nodwyd yn ystod yr ymchwil wrth ddesg. Mae data o'r Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr hefyd wedi'i ystyried fel tystiolaeth ategol.

## Cydymffurfio â'r Rhestr Wirio Ymgysylltu

4.24 Mae'r tabl isod yn dangos bod yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hwn wedi cydymffurfio â'r holl bwyntiau a nodir yn y Rhestr Wirio Ymgysylltu yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.

**Ffigur 7 – Rhestr Wirio Ymgysylltu**

| | Tasg | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| **1** | Ymweld â phob aelwyd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol a nodir trwy'r broses dadansoddi data hyd at deirgwaith, os oes angen. | ✓ |
| **2** | Cyhoeddi manylion proses yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys manylion cyswllt i alluogi aelodau'r gymuned i ofyn am gyfweliad, ar wefan yr awdurdod lleol, gwefan Travellers Times a chyhoeddiad World's Fair. Yn ogystal, gosodwyd hysbysebion gan Lywodraeth Cymru.<br><br>*Cafwyd cyhoeddusrwydd helaeth i hyrwyddo'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a cheir manylion yn Atodiad F. Fodd bynnag, peidiodd â chyhoeddi World's* | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| | *Fair fel papur newydd wythnosol yn 2019 (er bod cynlluniau i'w ail-lansio yn 2021) ac nid yw Travellers Times bellach yn cyhoeddi manylion Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar ei dudalennau Facebook.* | |
| **3** | Ymgynghori â sefydliadau cymorth cymunedol perthnasol, fel y rhai yn Atodiad 1.<br><br>*Ceisiwyd ymgysylltu â'r holl sefydliadau a restrir yn Atodiad 1 i'r canllawiau ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Yr unig sefydliad a ymatebodd oedd Travelling Ahead a chwblhawyd cyfweliad ffôn gyda'u rheolwr tîm. Mae crynodeb o ganlyniadau'r cyfweliad i'w weld yn Atodiad E.* | ✓ |
| **4** | Mae rhestrau aros awdurdod lleol ar gyfer lleiniau* ac ar gyfer tai. Mae'r rhestrau yn hygyrch ac yn cael eu cyfleu i aelodau'r gymuned.<br><br>**Nid oes unrhyw safleoedd cyhoeddus ym Mro Morgannwg felly nid oes rhestr aros.* | ✓ |
| **5** | Ymdrechu i gynnwys Sipsiwn a Theithwyr ar Grŵp Llywio Prosiect Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.<br><br>*Er bod niferoedd bach o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn byw ym Mro Morgannwg, nid oedd yn bosibl annog unrhyw aelod o'r gymuned i eistedd ar y grŵp llywio.* | ✓ |
| **6** | Sicrhau bod manylion cyswllt a ddarperir i'r awdurdod lleol gan aelodau o'r gymuned drwy'r broses o gynnal arolygon yn destun camau dilynol a bod anghenion yn cael eu hasesu.<br><br>*Dilynwyd pob cyswllt a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol a chwblhawyd cyfweliadau.* | ✓ |
| **7** | Ystyried cynnal digwyddiadau gwybodaeth am yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd (neu gerllaw) i egluro pam y dylai aelodau o'r gymuned gymryd rhan ac annog preswylwyr safle i ddod ag eraill nad ydynt efallai'n hysbys i'r awdurdod lleol.<br><br>*Oherwydd y nifer fach iawn o Deithwyr ym Mro Morgannwg, a phryderon parhaus oherwydd COVID-19, nid oedd yn bosibl cynnal unrhyw ddigwyddiadau gwybodaeth ar safleoedd.* | ✓ |

# 5. Canfyddiadau'r Arolwg

## Cefndir

5.1 Nododd yr ymchwil wrth ddesg, a gwybodaeth ychwanegol gan aelodau'r grŵp llywio, gyfanswm o ddim un safle cyhoeddus (awdurdod lleol), tri safle preifat gyda chaniatâd cynllunio (pum llain), un safle a oddefir (17 llain), a dau ddatblygiad diawdurdod (pedair llain). Nid oedd unrhyw iardiau Siewmyn Teithiol. Nodwyd cyfanswm o bedair aelwyd yn byw mewn tai brics a morter ond dim ond dwy a gytunodd i gael eu cyfweld.

**Ffigur 8 – Safleoedd ac Iardiau ym Mro Morgannwg (Chwefror 2022)**

| Enw'r Safle | Lleiniau | Statws |
|---|---|---|
| Travellers Rest, Eglwys  Fair y Mynydd | 3 | Preifat – Awdurdodedig |
| The Stables, Tresimwn | 1 | Preifat – Awdurdodedig |
| Tir oddi ar Heol Las, y Bont-faen | 1 | Preifat – Awdurdodedig |
| Hayes Road, Sili | 17 | Safle a oddefir |
| Twyn yr Odyn, Llwyneliddon | 1 | Datblygiad Diawdurdod |
| Tir yn Hen Chwarel Brocastell, Crack Hill | 3 | Datblygiad Diawdurdod[9] |
| Amherthnasol | Amherthnasol | Brics a Morter |
| Amherthnasol | Amherthnasol | Brics a Morter |
| **Cyfanswm** | **26** | |

5.2 Ceisiwyd cynnal cyfweliadau ar y safleoedd a’r iardiau rhwng Ionawr a Chwefror 2022. Cwblhawyd cyfanswm o bum cyfweliad llwyddiannus ar draws pob un o’r saith safle ac iard. Er gwaethaf pob ymdrech, nid oedd yn bosibl ymgysylltu’n llwyddiannus â mwyafrif y trigolion ar y safle a oddefir yn Hayes Road, Sili.[10] Hefyd, cwblhawyd dau gyfweliad gydag aelwydydd sy'n byw mewn tai brics a morter.

**Ffigur 9 – Cyfweliadau a Gwblhawyd ym Mro Morgannwg (Chwefror 2022)**

| Enw’r Safle/Iard | Lleiniau | Cyfweliadau | Gwrthodiadau |
|---|---|---|---|
| Travellers Rest, Eglwys Fair y Mynydd | 3 | 0 | 3 |
| The Stables, Tresimwn | 1 | 0 | 1 |
| Tir oddi ar Heol Las, y Bont-faen | 1 | 1 | 0 |
| Hayes Road, Sili | 17 | 1 | 16 |
| Twyn yr Odyn, Llwyneliddon | 1 | 0 | 1 |

[9] Mae Hen Chwarel Brocastell wedi'i rhestru fel datblygiad diawdurdod ond mae yn y broses o gael cais cynllunio ôl-weithredol. Mae'r cais cynllunio ar gyfer y safle yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.
[10] Gweler paragraffau 5.3 – 5.6 am ragor o wybodaeth.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tir yn Hen Chwarel Brocastell, Crack Hill | 3 | 3 | 0 |
| Brics a Morter 1 | Amherthnasol | 1 | 0 |
| Brics a Morter 2 | Amherthnasol | 1 | 0 |
| **CYFANSWM** | **26** | **7** | **21** |

## Hayes Road, Sili

5.3 Yn hanesyddol, bu diffyg ymgysylltu â'r preswylwyr ar y safle a oddefir yn Hayes Road gyda phroses yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr[11] a dangoswyd hyn eto wrth i'r preswylwyr wrthod ymgysylltu ag ORS i ddechrau. Serch hynny, er gwaethaf y diffyg ymgysylltu blaenorol, gyda chymorth Gypsies and Travellers Wales (GT Wales),[12] llwyddodd ORS i gael ymateb gan 11 o drigolion. Roedd cynrychiolydd o GT Wales yn gweithredu fel cyswllt rhwng ORS a thrigolion Hayes Road. Anfonodd cynrychiolydd GT Wales gopïau papur o holiadur Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru i Hayes Road ar gais y trigolion, a nododd y byddai'n well ganddynt broses hunangwblhau, yn hytrach na chael ymweliad gan weithwyr maes ORS.

5.4 Ymatebodd cyfanswm o ddeg o drigolion i ddatgan eu bod yn gwrthod cwblhau holiadur Llywodraeth Cymru ac nad oeddent yn fodlon cymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriadau pellach. Gan mai dim ond gan un aelwyd yn Hayes Road yr oedd ORS yn gallu cael holiadur wedi'i gwblhau, tybir felly bod yr holl aelwydydd eraill ar y safle hefyd wedi gwrthod cymryd rhan ym mhroses o gynnal yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae crynodeb o'r adborth gan Hayes Road i'w weld yn **Atodiad C**.

5.5 Gan gymryd yr awenau o ymgysylltu blaenorol â thrigolion y safle fel rhan o Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016, mae'n dal i gael ei gymryd yn ganiataol bod y trigolion yn gyffredinol yn nodi eu hunain fel Teithwyr Newydd, a bod y mwyafrif o oedolion yn gweithio, gan gynnwys rhai sy'n gweithio mewn ffeiriau a gwyliau. Mae'n amlwg o'r ymatebion dros gyfnodau diweddar yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr nad oes unrhyw awydd i safle awdurdod lleol (cyhoeddus) gael ei ddarparu i ddiwallu eu hanghenion llety a bod y trigolion eisiau darn o dir y gallent ei reoli eu hunain a'i ddylunio eu hunain.

5.6 Er y teimlir bod parodrwydd i ymgysylltu â'r preswylwyr wedi'i ddangos fel rhan o'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hwn, ni ddarparwyd cyfrif cadarn o nifer yr aelwydydd sy'n byw ar y safle a'u holl anghenion yn awr ac yn y dyfodol. Nododd yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr blaenorol (2016) angen i ddarparu ar gyfer cyfanswm o 17 o aelwydydd yn byw ar y safle, ac nad oedd yr un o'r trigolion hyn yn dymuno byw ar safle Sipsiwn a Theithwyr cyhoeddus ffurfiol. Yn absenoldeb unrhyw wybodaeth fwy diweddar, bydd y ffigwr o 17 yn cael ei ddefnyddio eto. Derbyniwyd y ffigwr hwn mewn egwyddor gan arolygydd cynllunio yn ystod yr archwiliad o CDLl presennol Bro Morgannwg.

## Cofnod Cyfweliadau

5.7 Mae copi o'r Cofnod Cyfweliadau i'w weld yn **Atodiad C**.

[11] https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Housing/Gypsy-and-Traveller-Accommodation-Assessment-Welsh.pdf
[12] https://gtwales.org.uk/

## Trosolwg a Demograffeg y Preswylwyr

5.8 Mae gwybodaeth a gasglwyd am y math o lety y mae'r rhai a gyfwelwyd yn byw ynddo yn dangos bod y Sipsiwn a'r Teithwyr a gyfwelwyd ym Mro Morgannwg yn byw ar safleoedd cyhoeddus, safleoedd preifat, safleoedd diawdurdod ac iardiau Siewmyn Teithiol, neu mewn tai brics a morter.

5.9 Roedd y cyfweliadau safle yn cynnwys cyfanswm o 21 o drigolion yn byw ar y safleoedd a'r iardiau ac mewn tai brics a morter. Roedd hyn yn cynnwys 11 o oedolion ac 11 o blant o dan 18 oed, sef cyfanswm o saith aelwyd. Mae hyn yn cyfateb i 50% o oedolion a 50% o blant a phobl ifanc yn eu harddegau. Er nad yw'n gymhariaeth uniongyrchol, mae data o'r Cyfrifiad ar gyfer Bro Morgannwg gyfan (y gymuned sefydlog a'r gymuned Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig) ac ar gyfer Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig wedi'i gymharu â phoblogaeth y safle. Mae hyn yn dangos cyfran uwch o'r rhai dan 18 oed yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr o gymharu â phoblogaeth Bro Morgannwg yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn bwysig wrth ystyried y gyfradd twf ar gyfer aelwydydd newydd y gellid ei chymhwyso i'r boblogaeth pan fydd angen tymor hwy yn cael ei bennu.

**Ffigur 10 – Oedran a Rhywedd Aelodau Aelwydydd fel % o Gyfanswm y Preswylwyr a Gyfwelwyd (Chwefror 2022)**

| Oed a Rhywedd – Safleoedd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwryw | 13 | 62 |
| Benyw | 8 | 38 |
| Anhysbys | 1 | 5[13] |
| | | |
| Dan 18 | 11 | 50 |
| 18 a throsodd | 11 | 50 |

## Crynodeb o'r Cyfweliadau

5.10 Mae crynodebau o'r cyfweliadau a gwblhawyd gyda Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd ac iardiau, ac yn byw mewn tai brics a morter, i'w gweld yn **Atodiad D**.

[13] Ffigur o 5% yn cynrychioli un person o rywedd anhysbys mewn poblogaeth o 22, sef 5% o'r boblogaeth honno. Felly, dim ond swm y rhaniad gwrywaidd a benywaidd y bwriedir iddo gyfrannu at gyfanswm (h.y. 100%) y boblogaeth.

# 6. Asesu Anghenion Llety

6.1 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth lleiniau sydd ei hangen ar Gyngor Bro Morgannwg am gyfnod tymor byr o bum mlynedd a chyfnod llawn y Cynllun Datblygu Lleol hyd at 2036. Mae hyn yn cynnwys yr angen presennol nas diwallwyd ac unrhyw angen sy'n debygol o godi yn y dyfodol. Mae'r cyfnod hwn yn caniatáu ar gyfer rhagolygon cadarn ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gynhwysir yn yr astudiaeth hon a hefyd o ffynonellau data eilaidd.

6.2 Mae'r adran hon yn seiliedig ar gyfuniad o wybodaeth o'r cyfweliadau aelwydydd, o'r cofnodion cynllunio, oddi wrth aelodau'r grŵp llywio, a chan randdeiliaid eraill. Mewn llawer o achosion, ni ddefnyddir data'r arolygon ar ei ben ei hun, ond yn hytrach fe'i defnyddir i ddilysu gwybodaeth o gofnodion cynllunio neu ffynonellau eraill.

6.3 Mae'r adran hon yn canolbwyntio nid yn unig ar gyfanswm y ddarpariaeth sydd ei hangen yn yr ardal, ond hefyd p'un a oes angen unrhyw safleoedd tramwy a/neu ddarpariaeth mannau aros brys.

6.4 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn gofyn am asesiad o anghenion lleiniau yn awr ac yn y dyfodol ac yn darparu fframwaith rhagnodedig ar gyfer gwneud y cyfrifiad hwn. Dilynwyd y fframwaith hwn at ddiben yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hwn.

6.5 Fel gydag unrhyw asesiad o'r angen am dai, gellir rhannu'r cyfrifiad sylfaenol yn nifer gymharol fach o ffactorau. Yn yr achos hwn, y mater allweddol ar gyfer lleiniau preswyl yw cymharu'r cyflenwad sydd ar gael i'w feddiannu ag anghenion yr aelwydydd yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r ffactorau allweddol ym mhob un o'r elfennau hyn wedi'u nodi yn yr adrannau isod.

## Cyflenwad Preswyl Presennol

- Lleiniau awdurdod lleol wedi'u meddiannu
- Lleiniau preifat awdurdodedig wedi'u meddiannu
- Lleiniau gwag awdurdod lleol a lleiniau preifat sydd ar gael
- Lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag yn y dyfodol agos
- Lleiniau preifat awdurdod lleol newydd gyda chaniatâd cynllunio

## Galw Preswyl Presennol

- Aelwydydd ar wersylloedd diawdurdod
- Aelwydydd ar ddatblygiadau diawdurdod
- Aelwydydd cudd/gorlawn/dwbl[14]

[14] Yn dilyn y canllawiau a nodir ym mharagraffau 195–201 o'r canllawiau ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.

» Tai confensiynol – symud o adeiladau brics a morter[15]

» Aelwydydd newydd i gyrraedd o restrau aros / mewnfudo

## Galw yn y Dyfodol

6.6 Mae cyfanswm y galw yn y dyfodol yn ganlyniad i ffurfio aelwydydd newydd yn ystod cyfnod yr astudiaeth. Mae gwybodaeth o'r cyfweliadau safle yn rhoi manylion am nifer gros yr aelwydydd newydd y disgwylir iddynt ffurfio o fewn pum mlynedd cyntaf yr astudiaeth. Mae ffurfio aelwydydd newydd ar gyfer gweddill cyfnod yr astudiaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth ddemograffig o'r cyfweliadau safle.

## Cyflenwad Preswyl Awdurdodedig Presennol

6.7 Er mwyn asesu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, mae'n bwysig deall cyfanswm nifer y lleiniau presennol a'u statws cynllunio. Ar y dyddiad sylfaen ar gyfer yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, nid oedd unrhyw safleoedd cyhoeddus (awdurdod lleol); roedd tri safle preifat gyda chaniatâd cynllunio (pum llain) ac un safle a oddefir (17 llain), ac nid oedd unrhyw iardiau Siewmyn Teithiol.

**Ffigur 11 – Cyfanswm y Safleoedd Awdurdodedig ym Mro Morgannwg (Chwefror 2022)**

| Categori | Safleoedd | Lleiniau | Wedi'u Meddiannu |
|---|---|---|---|
| Safleoedd preifat gyda chaniatâd cynllunio parhaol | 3 | 5 | 5 |
| Safleoedd preifat gyda chaniatâd cynllunio dros dro | 0 | 0 | 0 |
| Safleoedd cyhoeddus (Cyngor a darparwyr cofrestredig) | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth tramwy gyhoeddus | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth tramwy breifat | 0 | 0 | 0 |
| Safleoedd a oddefir | 1 | 17 | 17 |
| Iardiau Siewmyn Teithiol | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** | **22** | **22** |

6.8 Cam nesaf y broses yw asesu faint o le sydd ar gael, neu faint fydd yn dod ar gael ar safleoedd presennol er mwyn pennu cyflenwad y lleiniau sydd ar gael. Y prif ffyrdd o ddod o hyd i hyn yw trwy'r dulliau canlynol:

» **Lleiniau gwag ar hyn o bryd** – Nid oes unrhyw leiniau gwag.

» **Lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag** – Ni ddisgwylir i unrhyw leiniau ddod yn wag.

» **Lleiniau gyda chaniatâd cynllunio ar hyn o bryd** – Nid oes unrhyw leiniau ar safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio sydd heb ei weithredu.

6.9 Mae hyn yn rhoi ffigur ar gyfer **cyflenwad cyffredinol o ddim un llain**.

[15] Yn dilyn y canllawiau a nodir ym mharagraffau 172–183 o'r canllawiau ar gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

**Ffigur 12 – Crynodeb o Gyflenwad Lleiniau ym Mro Morgannwg (Chwefror 2022)**

| Categori | Lleiniau |
|---|---|
| Lleiniau gwag ar hyn o bryd | 0 |
| Lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag | 0 |
| Symud i adeilad brics a morter | 0 |
| Allfudo | 0 |
| Lleiniau sydd â chaniatâd cynllunio nad yw wedi'i weithredu | 0 |
| **CYFANSWM CYFLENWAD** | **0** |

## Galw Preswyl Presennol

6.10 Cam nesaf y broses yw asesu'r angen presennol a phennu faint o aelwydydd sy'n ceisio lleiniau yn yr ardal ar hyn o bryd.

## Safleoedd Diawdurdod Cyfredol

6.11 Mae'r astudiaeth wedi nodi dau safle Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod (pedair llain).

**Ffigur 13 – Crynodeb o Leiniau Diawdurdod ym Mro Morgannwg (Chwefror 2022)**

| Safle | Lleiniau |
|---|---|
| Twyn yr Odyn | 1 |
| Tir yn Hen Chwarel Brocastell | 3 |
| **CYFANSWM** | **4** |

## Aelwydydd Cudd a Lleiniau Gorlawn

6.12 Ceisiodd y cyfweliadau safle nodi aelwydydd cudd neu ddwbl ar safleoedd awdurdodedig sydd angen llain ar unwaith. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn diffinio aelwydydd cudd fel y rhai na allant gael eu llety awdurdodedig eu hunain ac sy'n byw yn lle hynny mewn llety awdurdodedig (tai neu leiniau) a neilltuwyd i aelwyd arall. Gall hyn gynnwys plant sy'n oedolion nad ydynt wedi gallu symud i gartref neu aelwydydd gwahanol yn meddiannu un llain. Ni nododd y cyfweliadau safle unrhyw aelwydydd cudd neu ddwbl.

## Tai Confensiynol

6.13 Mae nodi aelwydydd brics a morter wedi'i amlygu'n aml fel problem gydag Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Nododd Cyfrifiad Poblogaeth y DU 2011 fod cyfanswm o bedair aelwyd Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig ym Mro Morgannwg yn byw mewn tai brics a morter.

6.14 Fel y nodwyd yn gynharach, aeth ORS i bob ymdrech bosibl i nodi Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn tai brics a morter, gan weithio gyda rhanddeiliaid, swyddogion y Cyngor, ac aelwydydd a gafodd eu cyfweld

i nodi aelwydydd i'w cyfweld. Arweiniodd y broses hon at ddwy aelwyd a gafodd eu cyfweld. Roedd un eisiau ei safle preifat ei hun (nid llain ar safle awdurdod lleol) ond nid yw'n berchen ar unrhyw dir ar hyn o bryd. Roedd yr aelwyd arall am gael eiddo brics a morter newydd.

**Ffigur 14 – Crynodeb o'r Angen am Dai Brics a Morter ym Mro Morgannwg (Chwefror 2022)**

| Safle | Lleiniau |
|---|---|
| Aelwydydd presennol | 1 |
| **CYFANSWM** | **1** |

## Aelwydydd Newydd i Gyrraedd

6.15 Ar adeg yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, nid oes rhestr aros am leiniau gan nad oes safle cyhoeddus ym Mro Morgannwg.

6.16 Mae angen i asesiadau hefyd ystyried mewnfudo (aelwydydd sydd angen llety ac sy'n bwriadu symud i ardal yr astudiaeth o'r tu allan) ac allfudo (aelwydydd sy'n bwriadu symud i ffwrdd o ardal yr astudiaeth). Mae arolygon safle fel arfer yn nodi niferoedd bach yn unig o aelwydydd mewnfudwyr ac allfudwyr ac nid yw'r data fel arfer yn ddigon cadarn i allosod tueddiadau hirdymor. Ar y lefel genedlaethol, mae mudo sero net o Sipsiwn a Theithwyr ledled y DU, ond mae'r asesiad hwn wedi ystyried effeithiau mudo lleol ar sail y dystiolaeth leol orau sydd ar gael.

6.17 Mae tystiolaeth a gafwyd o gyfweliadau aelwydydd ym Mro Morgannwg wedi cael ei hystyried yn ofalus **a ni chafodd angen yn sgil mewnfudo ei nodi** ym Mro Morgannwg.

## Darpariaeth Lleiniau Ychwanegol: Angen yn y Dyfodol

6.18 Cam nesaf y broses yw asesu'r angen yn y dyfodol a phennu faint o aelwydydd sy'n debygol o fod yn chwilio am leiniau yn yr ardal yn y dyfodol yn ystod pum mlynedd cyntaf yr asesiad, ac am gyfnod hwy y Cynllun Datblygu Lleol newydd hyd at 2036.

## Poblogaeth a Thwf Aelwydydd

6.19 Yn genedlaethol, mae cyfradd ffurfio a thwf aelwydydd o 3.00% net y flwyddyn wedi'i thybio'n gyffredin ac yn cael ei defnyddio'n eang mewn Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr lleol, er nad oes tystiolaeth ystadegol bod aelwydydd yn tyfu mor gyflym. Y canlyniad fu chwyddo gofynion cenedlaethol a lleol am leiniau ychwanegol yn afrealistig. Yn y cyd-destun hwn, mae ORS wedi paratoi *Nodyn Technegol ar Ffurfio a Chyfraddau Twf Aelwydydd*, a ddiweddarwyd ym mis Mehefin 2020. Mae'r prif gasgliadau wedi'u nodi yma ac mae'r nodyn technegol llawn i'w weld yn **Atodiad G**.

6.20 Mae'r rhai sy'n ceisio darparu tystiolaeth o gyfraddau twf aelwydydd net blynyddol uchel ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr weithiau wedi ceisio dibynnu ar gynnydd yn nifer y carafannau, fel yr adlewyrchir yn y Cyfrifon Carafannau. Fodd bynnag, mae data'r Cyfrif Carafannau yn annibynadwy ac anghyson - felly'r unig ffordd briodol o ragamcanu twf poblogaeth ac aelwydydd yn y dyfodol yw trwy ddadansoddiad demograffig manwl.

6.21 Mae'r ymchwil a wnaed gan ORS wedi nodi, mewn gwirionedd, y gallai'r twf yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr genedlaethol fod mor isel ag 1.50% y flwyddyn – llawer llai na'r 3.00% y flwyddyn a dybir yn aml, ond yn dal yn fwy nag yn y gymuned sefydlog. Hyd yn oed gan ddefnyddio tybiaethau eithafol ac afrealistig, mae'n anodd dod o hyd i dystiolaeth bod cyfraddau twf net poblogaeth ac aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn uwch na 2.00% y flwyddyn yn genedlaethol.

6.22 Mae'r gyfradd twf aelwydydd net a dybir yn aml yn 3.00% y flwyddyn yn afrealistig a byddai angen tystiolaeth ystadegol glir cyn ei defnyddio at ddibenion cynllunio. Yn ymarferol, mae'r dystiolaeth orau sydd ar gael yn cefnogi cyfradd twf aelwydydd net genedlaethol o 1.50% y flwyddyn ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

6.23 Mae dau fesur o dwf aelwydydd a ddefnyddir ar gyfer asesu angen yn yr astudiaeth hon. Mae tystiolaeth o ffurfiant *gros* aelwydydd (twf teulu) o Adran D yr Arolwg Aelwydydd wedi cael ei defnyddio am y cyfnod pum mlynedd cyntaf, gan ddefnyddio tystiolaeth o drosiant lleiniau dros un flwyddyn a lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag i gyfrifo *sefyllfa net*. Mae ffurfio aelwydydd newydd ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i seilio ar dystiolaeth ddemograffig o'r cyfweliadau aelwydydd.

6.24 Nodwyd y cyfweliadau safle a brics a morter **bedair aelwyd newydd** o ganlyniad i dwf teuluol o blant yn eu harddegau dros bum mlynedd cyntaf yr asesiad.

6.25 Yn gyffredinol, mae ffurfio aelwydydd newydd ar gyfer yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hwn wedi'i lywio gan dystiolaeth leol. Fel arfer, byddai tystiolaeth ddemograffig leol yn cael ei defnyddio i addasu cyfradd twf cenedlaethol ORS o 1.50% i fyny neu i lawr yn seiliedig ar gyfran y rhai dan 18 oed (yn ôl statws cynllunio). Fodd bynnag, o ystyried mai dim ond pump o blant a nodwyd yn y cyfweliadau aelwydydd, ni fyddai'n briodol cymhwyso cyfradd ffurfio aelwydydd newydd[16] ac felly y mae barn wedi ei seilio ar oedran y plant hyn. Mae hyn yn arwain at ffurfio **dwy lain** ar gyfer aelwydydd yn y dyfodol dros weddill cyfnod yr CDLl newydd hyd at 2036.

## Yr Angen Cyffredinol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg

6.26 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn gofyn am ddau asesiad o angen – am bum mlynedd cyntaf cyfnod yr astudiaeth, ac am gyfnod llawn y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

6.27 Gan ddilyn y dull hwn, y ddarpariaeth amcangyfrifedig gyffredinol sydd ei hangen ym Mro Morgannwg ar gyfer y pum mlynedd cyntaf yw **naw llain**.

6.28 Y ddarpariaeth amcangyfrifedig gyffredinol sydd ei hangen hyd at 2036 yw **11 llain.**

[16] Roedd y ddemograffeg yn awgrymu y dylid cymhwyso cyfradd ffurfio o 2.10%. Byddai hyn wedi arwain at ffurfio 11 llain ar gyfer aelwydydd newydd, tra mai dim ond pump o blant sy'n byw ar safleoedd.

**Ffigur 15 – Lleiniau sydd eu Hangen ym Mro Morgannwg o 2021 i 2036**

| **Cyflenwad Preswyl Presennol** | **Nifer y Lleiniau** | **Nodiadau** |
|---|---|---|
| **A. Lleiniau awdurdod lleol wedi'u meddiannu** | 0 | |
| **B. Lleiniau preifat awdurdodedig wedi'u meddiannu / lleiniau a oddefir** | 22 | Tair llain yn Travellers Rest; un llain yn The Stables; un llain yn Heol Las; 17 llain yn Hayes Road |
| **Cyfanswm** | **22** | |
| **Cyflenwad Preswyl Cynlluniedig** | **Nifer y Lleiniau** | |
| **C. Lleiniau gwag awdurdod lleol a lleiniau gwag sydd ar gael** | 0 | Dim lleiniau gwag |
| **D. Lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag yn y dyfodol agos** | 0 | Nid oes disgwyl i unrhyw leiniau ddod yn wag |
| **E. Lleiniau awdurdod lleol a phreifat newydd gyda chaniatâd cynllunio** | 0 | Dim lleiniau heb eu gweithredu |
| **Cyfanswm** | **0** | |
| **Galw Preswyl Presennol** | **Galw am Leiniau** | |
| **F. Gwersylloedd diawdurdod** | 0 | |
| **G. Datblygiadau diawdurdod** | 4 | Tair llain ym Mrocastell; un llain yn Nhwyn yr Odyn |
| **H. Lleiniau gorlawn / llety anaddas** | 0 | |
| **I. Tai confensiynol** | 1 | Un llain o dŷ brics a morter |
| **J. Aelwydydd newydd i gyrraedd** | 0 | |
| **Cyfanswm** | **5** | |
| **Aelwydydd Presennol** | **Aelwydydd y Dyfodol (2021–26)** | **Aelwydydd y Dyfodol (2027–36)** |
| **K. 27** | **31** | **33** |
| **L. Angen lleiniau cartref ychwanegol** | **4**[17] | **2**[18] |
| **Angen Heb ei Ddiwallu** | **Angen yn Codi** | **Angen wedi'i Ddiwallu** |
| **M. Galw preswyl presennol** | **5** | |
| **N. Galw preswyl yn y dyfodol (hyd at 2026)** | **4** | |
| **O. Galw preswyl yn y dyfodol (hyd at 2036)** | **2** | |
| **P. Cyflenwad preswyl wedi'i gynllunio** | | **0** |
| **Q. Angen heb ei ddiwallu (hyd at 2026)** | **9** | |
| **R. Angen heb ei ddiwallu (hyd at 2036)** | **11** | |

## Anghenion Siewmyn Teithiol ym Mro Morgannwg

6.29 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn gofyn am ddau asesiad o angen – ar gyfer pum mlynedd cyntaf cyfnod yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (2021–2026), ac ar gyfer cyfnod llawn yr CDLl newydd hyd at 2036.

[17] Angen yn codi o blant yn eu harddegau (13–17 oed) ym Mrocastell.
[18] Angen wedi'i gyfrifo o bump o blant (3–12 oed) ym Mrocastell.

6.30 Er nad oes unrhyw iardiau Siewmyn Teithiol ffurfiol ym Mro Morgannwg, disgwylir y bydd llety dros dro (tymhorol) ar safle ffair Ynys y Barri. Deellir bod gan y rhai sy’n rheoli safle’r ffair yn Ynys y Barri un uned o lety dros dro (tymhorol) yn y ffair er dibenion diogelwch, er mwyn sicrhau bod rhywun ar y safle bob amser yn ystod tymor y ffair. O ystyried na ddaeth unrhyw Siewmyn Teithiol ymlaen yn ystod y broses gyfweld ddiweddaraf, rhagdybir bod y llety'n dal i ddiwallu'r holl anghenion llety tymhorol.

6.31 ran y gweithredwyr reidiau eraill, deellir y gall gweithredwyr reidiau newid o flwyddyn i flwyddyn ac y cânt eu dewis ym mis Chwefror. Pan fydd y ffair yn weithredol, nid anogir dod â charafanau preswyl i'r ffair. Mae llawer o'r gweithredwyr yn lleol ac yn byw mewn tai neu mae ganddynt iardiau parhaol mewn mannau eraill yng Nghymru a Lloegr.

6.32 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr astudiaeth hon, amcangyfrifir **nad oes angen darpariaeth lleiniau ychwanegol** ar gyfer Siewmyn Teithiol ym Mro Morgannwg am bum mlynedd cyntaf cyfnod astudiaeth yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hyd at 2026 ac nid oes angen **unrhyw leiniau eraill** am weddill cyfnod yr CDLl newydd. Mae hyn yn rhoi cyfanswm angen i ddiwedd cyfnod yr CDLl newydd hyd at 2036 o **ddim lleiniau**. Dylid ystyried y ffigurau hyn fel y swm rhagamcanol o ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i fodloni'r rhwymedigaethau statudol tuag at anghenion canfyddadwy'r boblogaeth sy'n codi yn yr ardal.

## Darpariaeth Safleoedd Tramwy / Aros mewn Argyfwng

6.33 Mae safleoedd tramwy yn cyflawni swyddogaeth benodol o ddiwallu anghenion aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr sy’n ymweld ag ardal neu sy’n pasio drwyddi. Fel arfer, mae gan safle tramwy gyfyngiad ar hyd arhosiad o tua 13 wythnos ac mae ganddo amrywiaeth o gyfleusterau megis cyflenwad dŵr, trydan, a blociau amwynder. Dewis arall yn lle safle tramwy yw man aros dros dro. Mae gan y math hwn o safle hefyd gyfyngiadau ar yr amser y gall Teithiwr aros arno ond mae ganddo gyfleusterau llawer mwy cyfyngedig, gyda dim ond ffynhonnell o ddŵr a thoiledau cemegol yn cael eu darparu fel arfer.

6.34 Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn arbennig o bwysig o ran darparu safleoedd tramwy i Sipsiwn a Theithwyr. Mae adran 62A o’r Ddeddf yn caniatáu i’r heddlu gyfarwyddo tresmaswyr i symud eu hunain, eu cerbydau, a’u heiddo oddi ar unrhyw dir lle mae llain addas ar faes carafannau perthnasol ar gael o fewn yr un ardal awdurdod lleol. Llain addas ar faes carafannau perthnasol yw un sydd wedi’i lleoli yn yr un ardal awdurdod lleol â’r tir y digwyddodd y tresmasu arno, ac sy’n cael ei reoli gan awdurdod lleol, darparwr cofrestredig, neu berson neu gorff arall fel y nodir yn y gorchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae cyfraith achosion wedi cadarnhau bod yn rhaid i lain addas fod yn rhywle lle gall yr aelwyd feddiannu ei garafán. Nid yw llety brics a morter yn ddewis arall addas yn lle llain.[19] Felly, mae safle tramwy yn darparu lle i aelwydydd sy'n cael eu cludo i ardal a hefyd yn fecanwaith ar gyfer mwy o gamau gorfodi yn erbyn gwersylloedd diawdurdod amhriodol.

[19] https://www.travellerstimes.org.uk/features/lawyers-opinion-police-powers-and-unauthorised-camps-travellers-motor-vehicles-and

6.35 Er mwyn nodi p'un a oes angen i'r Cyngor ddarparu llety tramwy, mae dadansoddiad wedi'i wneud o'r data Cyfrif Carafannau, data gwersylloedd wedi'i gofnodi a ddarparwyd gan y Cyngor, a chanlyniadau'r cyfweliadau ag aelwydydd.

6.36 Cadarnhaodd trafodaethau gyda rhanddeiliaid lleol, a dadansoddiad o gofnodion gwersylloedd diawdurdod, fod yna enghreifftiau o wersylloedd diawdurdod ym Mro Morgannwg.

6.37 Darparwyd cofnodion o wersylloedd diawdurdod ym Mro Morgannwg rhwng Ebrill 2018 a Rhagfyr 2021 gan y Cyngor o Borth Byw Cyfrif Carafannau Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn nodi dim ond 17 o wersylloedd a gofnodwyd – sef tri yn 2018, dau yn 2019, naw yn 2020, a thri yn 2021 (hyd at 13 Rhagfyr 2021).

6.38 Nid oedd canlyniadau'r cyfweliadau ag aelwydydd a thrafodaethau â rhanddeiliaid yn nodi bod angen darpariaeth trafnidiaeth barhaol yn lleol, er y bu trafodaethau ynghylch yr angen am fwy o ddarpariaeth tramwy ledled Cymru.

## Argymhellion Tramwy

6.39 Cadarnhaodd trafodaethau â rhanddeiliaid lleol ac awdurdodau lleol cyfagos, a dadansoddiad o gofnodion gwersylloedd diawdurdod, mai prin yw'r achosion o wersylloedd diawdurdod ym Mro Morgannwg.

6.40 Bu achosion lleol eraill o Deithwyr yn ymweld dros dro â Bro Morgannwg i fynychu priodasau neu ddigwyddiadau eraill, ond ni nodwyd unrhyw dystiolaeth bellach o unrhyw anghenion llety hirdymor na pharhaol.

6.41 Nid oedd canlyniadau'r cyfweliadau ag aelwydydd a thrafodaethau â rhanddeiliaid yn nodi bod angen darpariaeth trafnidiaeth barhaol yn lleol, er y bu trafodaethau ynghylch yr angen am fwy o ddarpariaeth tramwy ledled Cymru.

6.42 Fel y cyfryw, argymhellir nad **oes angen i'r Cyngor ddarparu safle tramwy ar hyn o bryd** ym Mro Morgannwg oherwydd y niferoedd isel o wersylloedd diawdurdod a natur fyrhoedlog y gwersylloedd hyn.

6.43 Argymhellir hefyd y dylai'r Cyngor barhau i fonitro nifer y gwersylloedd diawdurdod ac ystyried y defnydd o oddefiad tymor byr (gan gynnwys trefniadau aros a drafodwyd) i ymdrin ag arosfannau dros dro am gyfnod byr. Dylai'r dull hwn sy'n seiliedig ar reolaeth hefyd ystyried p'un a ddylid darparu toiledau, dŵr a chyfleusterau sbwriel. Mae nifer o enghreifftiau ledled Cymru a Lloegr lle mae dulliau seiliedig ar reoli o ymdrin â gwersylloedd diawdurdod wedi bod yn llwyddiannus. Ceir enghraifft dda yn www.negotiatedstopping.co.uk. Ceir llawer o enghreifftiau hefyd lle mae awdurdodau lleol yn mabwysiadu ymagwedd fwy strategol a rhanbarthol tuag at fynd i'r afael â materion tramwy, gan gynnwys yn Essex, Swydd Gaerlŷr, Swydd Northampton gynt, a Hampshire.

# 7. Casgliadau

## Yr Angen am Leiniau Sipsiwn a Theithwyr

7.1 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr astudiaeth hon, amcangyfrifir bod angen darpariaeth lleiniau ychwanegol o **naw llain** ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg am bum mlynedd gyntaf cyfnod yr astudiaeth ac mae angen **dwy lain** bellach erbyn 2036, sef diwedd cyfnod CDLl newydd Bro Morgannwg. Mae hyn yn rhoi cyfanswm angen o **11 llain** ar gyfer y cyfnod cyfan ac ar draws Bro Morgannwg .

## Yr Angen am Leiniau Siewmyn Teithiol

7.2 Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi nodi nad oes angen lleiniau Siewmyn Teithiol ym Mro Morgannwg.

## Safleoedd Tramwy

7.3 Argymhellir **nad oes angen i'r Cyngor ddarparu safle tramwy ar hyn o bryd** ym Mro Morgannwg oherwydd y niferoedd isel o wersylloedd diawdurdod a natur fyrhoedlog y gwersylloedd hyn.

## Mynd i'r Afael â'r Angen a Nodwyd

7.4 Yn gyffredinol, dylai'r angen a nodir mewn Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gael ei weld fel yr angen am leiniau. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddylunio safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (2015) yn argymell y dylai llain allu cynnwys bloc amwynder, cartref symudol, carafán deithiol, a pharcio ar gyfer dau gerbyd o leiaf. Fodd bynnag, dim ond i safleoedd cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau lleol y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol, ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw safle cyhoeddus ym Mro Morgannwg.

7.5 Cydnabyddir bod y Cyngor yn y broses o adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, sy'n nodi sut yr eir i'r afael â'r angen cyffredinol am dai. Mae CDLl newydd Bro Morgannwg yn cwmpasu'r cyfnod 2021–2036. Dylid ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn fel rhan o gymysgedd a math o dai yn y dyfodol yng nghyd-destun yr asesiad o'r angen cyffredinol am dai mewn perthynas â Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol.

# Atodiad A: Diffiniad o Dermau Allweddol

| | |
|---|---|
| **Sipsiwn a Theithwyr** | (a) Personau sy’n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo’u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:<br><br>(1) Personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi’r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, a<br><br>(2) Aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy’n rhan o syrcasau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o’r fath ai peidio); a<br><br>(b) Unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.<br><br>Ffynhonnell: Adran 108, Deddf Tai (Cymru) 2014 |
| **Safle preswyl** | Gall safle preswyl parhaol fod yn eiddo preifat neu'n eiddo i'r awdurdod lleol. Bydd y safle hwn yn cael ei ddynodi i'w ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr am gyfnod amhenodol. Gall preswylwyr ar y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau am gyhyd ag y byddant yn cadw at delerau eu cytundebau lleiniau, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.<br><br>Gellir darparu mannau gweithio hefyd ar, neu gerllaw, safleoedd ar gyfer gweithgareddau a gyflawnir gan aelodau'r gymuned. |
| **Safle preswyl dros dro** | Mae'r safleoedd hyn yn safleoedd preswyl sydd â chaniatâd cynllunio neu drwydded safle am gyfnod cyfyngedig yn unig. Gall preswylwyr ar y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau am |

| | |
|---|---|
| | gyfnod y caniatâd cynllunio neu drwydded safle (neu cyn belled â'u bod yn cadw at delerau eu cytundebau lleiniau, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – pa un bynnag sydd gyntaf). |
| **Safle tramwy** | Mae safleoedd tramwy yn gyfleusterau parhaol a ddyluniwyd at ddefnydd dros dro gan feddianwyr. Rhaid i'r safleoedd hyn gael eu dynodi felly a darparu llwybr i Sipsiwn a Theithwyr gynnal ffordd grwydrol o fyw. Caniateir i feddianwyr unigol fyw ar y safle am uchafswm o dri mis ar y tro.<br><br>Mae telerau penodol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn berthnasol ar y safleoedd hyn. Gellir darparu mannau gweithio hefyd ar, neu gerllaw, safleoedd ar gyfer gweithgareddau a gyflawnir gan aelodau'r gymuned. |
| **Man Aros Dros Dro** | Adwaenir hefyd fel 'man aros', 'Atchin Tan', neu 'lôn werdd', ymhlith enwau eraill. Bwriedir i'r rhain fod yn rhai tymor byr eu natur i gynorthwyo awdurdodau lleol lle mae angen am leiniau'n cael ei dderbyn ond nid oes rhai ar gael ar hyn o bryd. Gellir defnyddio mannau aros dros dro a nodwyd yn rhagweithiol i adleoli gwersylloedd sydd wedi'u lleoli'n amhriodol, tra bo safleoedd eraill yn cael eu datblygu.<br><br>Rhaid i fannau aros dros dro wneud darpariaeth ar gyfer gwaredu gwastraff, cyflenwad dŵr a glanweithdra o leiaf. |
| **Llain breswyl** | Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am gyfnod amhenodol (oni bai y nodir yn eu cytundeb llain). Yn nodweddiadol, mae'n cynnwys bloc amwynder, lle ar gyfer carafán sefydlog a charafán deithiol, a pharcio. |
| **Llain tramwy** | Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am uchafswm o dri mis. |

| | |
|---|---|
| | Gall lleiniau tramwy fodoli ar safleoedd preswyl parhaol; fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei argymell. |
| **Gwersyllfa ddiawdurdod** | Tir a feddiannir heb ganiatâd y perchennog neu heb y caniatâd cynllunio defnydd tir cywir. Gall gwersylloedd gael eu goddef gan yr awdurdod lleol tra bo safleoedd eraill yn cael eu datblygu. |
| **Datblygiad diawdurdod** | Tir a feddiannir gan y perchennog heb y caniatâd cynllunio defnydd tir angenrheidiol. |
| **Cyflenwad preswyl presennol** | Nifer y lleiniau awdurdodedig sydd ar gael ac a feddiannir o fewn yr awdurdod lleol neu ardal bartneriaeth. Mae hyn yn cynnwys lleiniau ar safleoedd awdurdod lleol neu breifat. |
| **Galw preswyl presennol** | Y rhai sydd ag angen am leiniau awdurdodedig am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys y canlynol:<br>Anallu i sicrhau llain awdurdodedig yn arwain at feddiannu gwersylloedd diawdurdod<br>Anallu i sicrhau caniatâd cynllunio cywir ar gyfer datblygiad diawdurdod<br>Aelwydydd sy'n byw mewn amodau gorlawn ac am gael llain<br>Aelwydydd mewn tai confensiynol yn dangos atgasedd diwylliannol<br>Aelwydydd newydd a ddisgwylir i gyrraedd o rywle arall |
| **Galw preswyl yn y dyfodol** | Y lefel ddisgwyliedig o ffurfiant aelwydydd newydd a fydd yn cynhyrchu galw ychwanegol o fewn cyfnod pum mlynedd yr asesiad llety a chyfnod hirach yr CDLl. |
| **Angen cyffredinol am leiniau preswyl** | Cyfrifiad terfynol yr angen am lety heb ei ddiwallu y mae'n rhaid ei nodi drwy'r broses asesu llety Sipsiwn a Theithwyr. Gellir dod o hyd i'r ffigur hwn drwy ychwanegu'r angen preswyl uniongyrchol at |

| | |
|---|---|
| | y galw am leiniau preswyl yn y dyfodol. Bydd yr angen preswyl cyffredinol yn dal yr anghenion ar draws y cyfnod o bum mlynedd yr ystyrir bod yr asesiad llety yn gadarn ynddo. |
| **Cyflenwad lleiniau preswyl wedi'i gynllunio** | Nifer y lleiniau awdurdodedig sy'n wag ac sydd ar gael i'w rhentu ar safleoedd awdurdod lleol neu safleoedd preifat. Mae hefyd yn cynnwys lleiniau a fydd yn wag yn y dyfodol agos yn sgil aelwydydd yn symud i dai confensiynol neu o dan amgylchiadau eraill. Dylid cynnwys lleiniau ychwanegol sydd ar fin agor neu safleoedd preifat sy'n debygol o gael caniatâd cynllunio cyn bo hir fel cyflenwad preswyl cynlluniedig. |
| **Aelwyd** | Yn y canllaw hwn, mae hyn yn cyfeirio at unigolion o'r un teulu sy'n byw gyda'i gilydd ar un llain a/neu mewn un tŷ/gwersyllfa. |
| **Aelwyd gudd neu 'ddwbl'** | Mae hyn yn cyfeirio at aelwydydd nad ydynt yn gallu cael eu llety awdurdodedig eu hunain ac yn hytrach yn byw mewn llety awdurdodedig (tai neu leiniau) a neilltuwyd i aelwyd arall.<br><br>Gall hyn gynnwys plant sy'n oedolion nad ydynt wedi gallu symud i gartref neu aelwydydd gwahanol yn meddiannu un llain. |
| **Twf aelwydydd** | Yn y canllawiau hyn, diffinnir twf aelwydydd gan nifer yr aelwydydd newydd sy'n deillio o aelwydydd sydd eisoes yn byw yn yr ardal. |

# Atodiad B: Safleoedd ac Iardiau ym Mro Morgannwg (Chwefror 2022)

| Safle/Iard | Lleiniau Gweithredol | Lleiniau Diawdurdod |
|---|---|---|
| **Safleoedd Cyhoeddus** | | |
| Dim | - | - |
| **Safleoedd Preifat gyda Chaniatâd Parhaol** | | |
| Travellers Rest, Eglwys Fair y Mynydd | 3 | - |
| The Stables, Tresimwn | 1 | - |
| Tir oddi ar Heol Las, y Bont-faen | 1 | - |
| **Safleoedd Preifat gyda Chaniatâd Dros Dro** | | |
| Dim | - | - |
| **Safleoedd a Oddefir** | | |
| Hayes Road, Sili | - | 17[20] |
| **Safleoedd Diawdurdod** | | |
| Tir yn Hen Chwarel Brocastell, Crack Hill | | 3[21] |
| Twyn yr Odyn, Llwyneliddon | - | 1 |
| **CYFANSWM LLEINIAU** | **5** | **21** |
| **Safleoedd Tramwy Cyhoeddus** | | |
| Dim | - | - |
| **Safleoedd Tramwy Preifat** | | |
| Dim | - | - |
| **Iardiau Siewmyn Teithiol Preifat** | | |
| Dim | - | - |
| **Iardiau Siewmyn Teithiol a Oddefir** | | |
| Dim | - | - |
| **Iardiau Siewmyn Teithiol Diawdurdod** | | |
| Dim | - | - |
| **CYFANSWM LLEINIAU** | **-** | **-** |

[20] Gweler paragraffau 5.3 – 5.6 am ragor o wybodaeth.
[21] Gweler paragraff 3.19 am ragor o wybodaeth.

# Atodiad C: Cofnod Cyfweliadau

| Address | Type of tenure | Engagement attempts | | | Engagement techniques | Completed or refusal? | Reason for refusal? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Travellers Rest, pitch 1 | Private authorised site | 24/01/2022 | | | Visit | Refusal | Refused to engage |
| Travellers Rest, pitch 2 | Private authorised site | 24/01/2022 | | | Visit | Refusal | Refused to |
| Travellers Rest, pitch 3 | Private authorised site | 24/01/2022 | | | Visit | Refusal | Refused to |
| The Stables | Private authorised site | 26/01/2022 | | | Visit | | Not currently occupied |
| Heol Las | Private authorised site | 26/01/2022 | 26/01/2022 | | Visit/Phone | Completed | |
| Hayes Road, Sully | Tolerated site | 26/01/2022 | 24/02/2022 | 16/03/2022 | Visit/Phone/ Email | Completion and refusals | Refusals and interviews |
| Land at Old Brocastle Quarry | Unauthorised development | 26/01/2022 | 04/02/2022 | | Visit/Phone | Completed | |
| Twyn Yr Odyn, | Unauthorised development | 24/02/2022 | | | Visit | Refusal | No contact could be made. Family away travelling |
| Not given - refused | Bricks and mortar | 24/01/2022 | | | Visit | Completed | |
| St. Pauls Close | Bricks and mortar | 01/02/2022 | | | Phone | Completed | |

# Atodiad D: Crynodeb o'r Cyfweliadau ag Aelwydydd

## Safleoedd Awdurdodedig

## Heol Las

Cwblhaodd staff ORS gyfweliad gyda phreswylwyr sy'n byw ar y safle awdurdodedig yn Heol Las ym mis Ionawr 2022.

Sipsiwn a phreswylwyr Romani sy'n meddiannu'r safle  ac mae dau oedolyn yno.

Dywedodd yr aelwyd nad ydynt wedi gwersylla ar ymyl y ffordd, mewn gwersyllfa ddiawdurdod nac ar safle tramwy yn y flwyddyn ddiwethaf a dywedodd fod angen darpariaeth tramwy ychwanegol ledled Cymru yn gyffredinol.

## Hayes Road (Safle a Oddefir)

Derbyniwyd ffurflen ymateb gan ORS ym mis Mawrth 2022 gan ddeg aelwyd amhenodol.

Roedd yr ymateb yn wrthodiad cyfunol am "resymau gwahanol" ac oherwydd "*drwgdybio'r cyfwelydd a'r system y mae'n ei chynrychioli*".

Datganiad a ddarparwyd gan ymatebwyr: "*Ar ôl deng mlynedd o gyfarfod â'r awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru, ymddengys mai ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd o hyd o anghenion pobl Sipsiwn, Teithwyr a Roma o ran llety. Darpariaeth safleoedd a darpariaeth annigonol mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, yn enwedig o ran safleoedd tramwy, nad oes yr un ohonynt??*"

Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau ar holiadur Llywodraeth Cymru yn gyffredinol yn amhenodol gan fod opsiynau lluosog wedi'u gwirio ar nifer o gwestiynau. Fodd bynnag, casglwyd ymatebion penodol, sef amlygwyd nad oes lle i fwy o unedau (h.y. ôl-gerbydau/carafannau) yn y lleoliad, a bod angen safleoedd tramwy ledled Cymru ym mhob awdurdod lleol ar gyfer ymweliadau teulu a gwaith.

Gwnaed cais i ddau becyn cais gael eu hanfon i'r safle er mwyn cofrestru ar gyfer y rhestr aros am dŷ.

Daeth yr ymateb i ben drwy hysbysu nad oedd yr ymatebwyr "*yn fodlon cymryd rhan mewn ymgynghoriadau pellach*".

**Llain amhenodol**

Derbyniwyd ffurflen ymateb gan ORS ym mis Mawrth 2022 ar gyfer un aelwyd yn byw ar y safle.

Roedd yr ymatebwyr yn hunaniaethu fel Teithwyr Newydd ac roedd y cartref yn cynnwys dau oedolyn.

Dywedwyd bod digon o fannau cysgu ar gyfer yr holl breswylwyr a dim lle ar y llain ar gyfer unrhyw ôl-gerbydau/carafannau ychwanegol. Dywedodd yr aelwyd ei bod yn well ganddynt fyw mewn carafán ac nad oedd yn bwriadu symud i lety arall. Mae'r aelwyd yn aros yn yr ardal oherwydd cysylltiadau lleol ac wedi byw yn yr ardal ers rhwng dwy a phum mlynedd.

Dywedodd yr aelwyd eu bod wedi gwersylla wrth ymyl y ffordd, mewn gwersyllfa ddiawdurdod neu ar safle tramwy yn y flwyddyn ddiwethaf a dywedodd fod angen darpariaeth tramwy ychwanegol ledled Cymru yn gyffredinol.

## Safleoedd Diawdurdod

## Chwarel Brocastell

Cwblhaodd staff ORS gyfweliad gyda phreswylwyr sy’n byw ar y safle diawdurdod yn Chwarel Brocastell ym mis Chwefror 2022.

Mae’r safle’n cael ei feddiannu gan deulu o Sipsiwn Romani ac roedd y preswylwyr ar bob llain yn cynnwys y canlynol:

**Llain 1**

Mae un oedolyn.

**Llain 2**

Mae dau oedolyn a phedwar plentyn o dan 18 oed. Felly roedd dau berson ifanc yn eu harddegau a fydd angen eu llain eu hunain yn y pum mlynedd nesaf.

**Llain 3**

Mae un oedolyn a phedwar plentyn o dan 18 oed. Felly roedd dau berson ifanc yn eu harddegau a fydd angen eu llain eu hunain yn y pum mlynedd nesaf.

Dywedodd y teuluoedd fod digon o le ar y safle i atal gorlenwi ac y byddai angen caniatâd cynllunio ar y safle.

Dywedodd yr aelwyd nad ydynt wedi gwersylla ar ymyl y ffordd, mewn gwersyllfa ddiawdurdod nac ar safle tramwy yn y flwyddyn ddiwethaf a gwrthododd wneud sylw ynghylch p'un a oes angen darpariaeth tramwy ychwanegol ledled Cymru yn gyffredinol.

## Brics a Morter

## Brics a Morter 1

Cwblhaodd staff ORS gyfweliad gyda phreswylwyr sy’n byw yn yr eiddo brics a morter ym mis Ionawr 2022.

Mae’r tŷ yn cael ei feddiannu gan Deithwyr Gwyddelig ac roedd y preswylwyr yn cynnwys dau oedolyn a dau blentyn o dan 18 oed.

Byddai'n well gan yr aelwyd fyw mewn carafán a hoffai symud i safle preifat. Nid yw'r aelwyd yn berchen ar dir yn yr ardal ar hyn o bryd.

Dywedodd yr aelwyd nad yw wedi gwersylla ar ymyl y ffordd, mewn gwersyllfa ddiawdurdod nac ar safle tramwy yn y flwyddyn ddiwethaf a dywedodd fod angen darpariaeth tramwy ychwanegol ledled Cymru yn gyffredinol.

## Brics a Morter 2

Cwblhaodd staff ORS gyfweliad gyda phreswylwyr sy'n byw yn yr eiddo brics a morter ym mis Chwefror 2022.

Mae Sipsiwn Romani yn byw yn y tŷ ac mae preswylwyr yn cynnwys un oedolyn ac un plentyn o dan 18 oed.

Byddai'n well gan yr aelwyd aros mewn llety brics a morter ond hoffai symud i eiddo gwahanol.

Dywedodd yr aelwyd nad yw wedi gwersylla ar ymyl y ffordd, mewn gwersyllfa ddiawdurdod nac ar safle tramwy yn y flwyddyn ddiwethaf a dywedodd fod angen darpariaeth tramwy ychwanegol ledled Cymru yn gyffredinol.

# Atodiad E: Crynodeb o Gyfweliad – Travelling Ahead

Bu ORS yn cyfweld â chynrychiolydd o Travelling Ahead.[22]

Mae Travelling Ahead yn sefydliad sy'n darparu cymorth, cyngor ac eiriolaeth i deuluoedd Sipsiwn, Teithwyr a Roma ledled Cymru. Maent wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o asesiadau o anghenion llety ledled Cymru i sicrhau bod cymuned y Teithwyr yn cael ei chynrychioli.

Amlygwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth gydag ORS a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2021.

» Ystyrir bod diffyg unrhyw fath o ddarpariaeth tramwy yn Ne Cymru yn bryder mawr. Awgrymwyd y gellid ceisio cyngor ar y mater hwn gan sefydliadau y tu allan i gynghorau a'i drafod â phobl â phrofiad o deithio. Teimlwyd mai ymgysylltu ag aelodau o gymuned y Teithwyr fyddai'r ffordd orau o nodi pa ffurf y dylai'r ddarpariaeth tramwy ei chymryd. Ymhellach, dylai cynghorau fod yn monitro'r sefyllfa yn barhaus a dal eu hunain yn atebol am unrhyw ddiffyg gweithredu.

» O ystyried y diffyg cynnydd gyda darpariaeth tramwy yn Ne Cymru, mae pryder ynghylch p'un a yw proses yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn ei chyfanrwydd mewn gwirionedd yn darparu'r rhwydwaith cymorth i deuluoedd crwydrol sydd ei angen mewn gwirionedd. Tra bo angen yn cael ei fesur yn systematig, gellir amau p'un a yw'r hyn a nodir yn cael ei fonitro a/neu ei weithredu'n gywir.

» Hoffai Travelling Ahead weld Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo math o 'gymorth cyn ymgeisio' i Deithwyr sydd am brynu tir. Mae hyn er mwyn cyfyngu ar ba mor aml y mae Teithwyr yn prynu tir sydd yn y pen draw yn anaddas ar gyfer llety parhaol.

» Hoffai Travelling Ahead hefyd weld Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau ac yn annog prydlesi fel y gall pobl nad oes ganddynt eu hadnoddau eu hunain gael mynediad i dir yn yr hirdymor.

[22] https://www.tgpcymru.org.uk/cy/beth-rydyn-nin-ei-wneud/travelling-ahead-wales-gypsy-roma-and-traveller-advice-and-advocacy-service/

# Atodiad F: Deunyddiau Cyhoeddusrwydd




Are you a GYPSY or TRAVELLER
from the Vale of Glamorgan or visits the area regularly?
If so, we would like to hear about your accommodation needs.
The Vale of Glamorgan Council wants to better understand the requirements of these members of our community.
HEAR ABOUT YOUR ACCOMMODATION NEEDS
Please share your views
before February 11th
michael.bayliss@ors.org.uk
www.valeofglamorgan.gov.uk/consulation
Telephone:
01446 700 111

# Atodiad G: Nodyn Technegol ar Ffurfio a Chyfraddau Twf Aelwydydd

Bydd Atodiad G yn cael ei gynnwys yn fersiwn PDF derfynol o adroddiad yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.